Llywodraeth Cymru
Welsh Government




# Llywodraeth Cymru Llyfryn Datgarboneiddio Busnesau

Chwefror 2025


# Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| **Rhagair** | | **1** |
| **1** | **Cyflwyniad** | **3** |
| **2** | **Y Pwyllgor Newid Hinsawdd** | **4** |
| **3** | **Strategaethau a deddfwriaeth trosfwaol** | **5** |
| | 3.1 Y genhadaeth economaidd | 5 |
| | 3.2 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 | 6 |
| | 3.3 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 | 7 |
| | 3.4 Y contract economaidd | 7 |
| **4** | **Trosolwg o Fentrau Bach a Chanolig** | **8** |
| **5** | **Y gallu i wrthsefyll yr hinsawdd** | **10** |
| **6** | **Adeiladau busnes** | **11** |
| **7** | **Ynni** | **14** |
| | 7.1 Targedau ynni | 15 |
| | 7.2 Y strategaeth wres | 15 |
| | 7.3 Gridiau ynni'r dyfodol | 16 |
| | 7.4 Rhan busnesau bach a chanolig mewn arbed ynni ac ynni adnewyddadwy | 17 |
| **8** | **Gweithgynhyrchu** | **19** |
| **9** | **Manwerthu** | **21** |
| **10** | **Y sector bwyd a diod** | **22** |
| **11** | **Twristiaeth a lletygarwch** | **23** |

| | | |
|---|---|---|
| **12** | **Y sector cyhoeddus** | **25** |
| **13** | **Trafnidiaeth** | **26** |
| **14** | **Effeithlonrwydd adnoddau a'r economi gylchol** | **27** |
| 14.1 | Cronfa'r economi gylchol | 27 |
| **15** | **Pontio Teg i sero economi net** | **28** |
| **16** | **Sgiliau a hyfforddiant** | **29** |
| **17** | **Partneriaeth gymdeithasol, caffael cyhoeddus a gwaith teg** | **30** |
| **18** | **Bioamrywiaeth** | **32** |
| **19** | **Cymorth Busnes Llywodraeth Cymru** | **33** |
| 19.1 | Busnes Cymru | 33 |
| **20** | **Ariannol** | **36** |
| 20.1 | Ardrethi annomestig | 36 |
| 20.2 | Banc Datblygu Cymru – Trosolwg o ddatgarboneiddio | 37 |
| 20.3 | Banc Datblygu Cymru – Y Cynllun Benthyciadau Busnes Gwyrdd | 37 |
| 20.4 | Cronfa Dyfodol yr Economi | 37 |
| 20.5 | Y Gronfa Paratoi at y Dyfodol | 37 |
| 20.6 | Rhaglen Cefnogi Arloesedd Hyblyg SMART | 37 |
| 20.7 | Innovate UK | 37 |
| 20.8 | British Business Bank | 38 |
| 20.9 | UK Finance | 38 |
| **21** | **Caffael** | **39** |
| **22** | **Rhanddeiliaid** | **41** |


OGL © Hawlfraint y Goron 2025, WG50834, ISBN digidol 978-1-83715-158-5

# Rhagair



**Mae Cymru ar drothwy chwyldro diwydiannol newydd. Yn union fel yr oedd ein cymunedau wrth galon y chwyldro diwydiannol cyntaf – yn gyrru'r gwaith o gynhyrchu'r haearn, y glo a'r dur a luniodd ein cenedl – heddiw, mae gennym gyfle unwaith eto i fod ar flaen y gad o ran arloesi a chynnydd.**

Mae ein cenedl yn ffynnu ar economi amrywiol sydd wedi'i gwreiddio mewn gweithgynhyrchu, diwydiannau gwasanaeth, amaethyddiaeth a symudiad cyffrous tuag at ynni adnewyddadwy.

Nid dim ond mater o reidrwydd yw'r trawsnewidiad hwn, mae'n gyfle i fusnesau bach a chanolig ffynnu, gan greu cadwyni cyflenwi newydd a meithrin gyrfaoedd boddhaus. Wrth i gymunedau adfywio, edrychwn i'r dyfodol yn optimistaidd.

Yn ganolog i'r trawsnewid economaidd hwn mae'r newid o ynni carbon uchel i ynni carbon isel. Rhaid i fusnesau bach a chanolig leihau eu heffeithiau carbon, addasu i'r newid yn yr hinsawdd a manteisio ar y rhwydweithiau o gadwyni cyflenwi cynaliadwy sy'n dod i'r amlwg.

Mae'r llyfryn yn amlinellu'r cyd-destun strategol, yn cyflwyno tystiolaeth ymchwil ar effeithiau carbon ac ariannol effeithiau ac yn cyfeirio at gyfoeth o gymorth technegol ac ariannol.

Gobeithio ei fod yn adnodd gwerthfawr i lunwyr polisi, rheolwyr busnesau bach a chanolig ac unrhyw un sydd am ddeall y dirwedd strategol a pholisi sy'n ymwneud â datgarboneiddio'r sector busnes yng Nghymru.

I ddarpar fuddsoddwyr sy'n ystyried Cymru: mae ein cyfeiriad yn glir. Mae ein fframwaith strategol a pholisi, a ategir gan ddeddfwriaeth, wedi ymrwymo i 'Bontio Teg' tuag at economi wyrddach gyda mwy o swyddi gwyrdd. Mae hyn yn creu amgylchedd sefydlog, optimistaidd ar gyfer buddsoddi, twf ac arloesi.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i adeiladu economi lewyrchus sydd o fudd i bob cwr o Gymru, gan ddarparu cyfleoedd i bob dinesydd. Bydd ein heconomi newydd, a fydd yn cael ei thanio gan ynni adnewyddadwy carbon isel, yn cefnogi gweithgynhyrchu uwch, sector gwasanaethau sy'n arwain y byd, bwyd a diod cynaliadwy, a busnesau ffyniannus ar draws pob sector.

Byddwn yn rheoli ein hadnoddau naturiol yn ofalus ac yn hyrwyddo bioamrywiaeth. Mae ein hymrwymiad yn cynnwys darparu trafnidiaeth gyhoeddus fodern, effeithlon a datblygu rhwydwaith ffyrdd sy'n cysylltu porthladdoedd rhydd ac ardaloedd twf newydd. Bydd ein system addysg yn cael ei theilwra i ddiwallu anghenion yr economi newydd esblygol hon, gan gynnig cyfleoedd i bawb, o'r ysgol i'r rhai sy'n ailhyfforddi drwy gydol eu gyrfa.

Byddwn yn gweithio'n agos gyda llywodraeth newydd y DU, sy'n rhannu ein huchelgeisiau a'n gwerthoedd, i ysgogi twf economaidd a chreu swyddi newydd ym maes ynni adnewyddadwy, tra'n lleihau ein heffaith carbon.

Rwy'n gwahodd pawb i ymuno â'n hymdrech genedlaethol i wneud Cymru'n genedl lewyrchus, gynaliadwy sy'n cynnig cyfleoedd ar gyfer hapusrwydd a boddhad – wedi'i llywio gan ein trawsnewidiad economaidd.



**Rebecca Evans AS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio

# 1
# Cyflwyniad



**Bydd datgarboneiddio'r sector busnes yng Nghymru yn cael ei gyflawni gan fentrau ar draws Llywodraeth Cymru, partneriaid yn y sector cyhoeddus a'r sector busnes. Mae yna lawer o ffyrdd y gellir lleihau effeithiau carbon busnesau i greu llwybrau posibl i ddatgarboneiddio. Mae dilyn y llwybrau hyn hefyd yn rhoi'r cyfleoedd a ddaw yn sgil bod yn rhan o'r newid i economi carbon isel i fusnesau bach a chanolig ar draws cadwyni cyflenwi.**

Mae yna lawer o dystiolaeth ac adroddiadau ymchwil, a llawer o strategaethau sy'n effeithio ar y dulliau o ddatgarboneiddio busnesau, ac mae'r ddogfen gyfeirio hon yn coladu'r wybodaeth sydd ar gael, yn nodi'r polisïau sy'n cael eu dilyn ac yn egluro cydweddiad strategol datgarboneiddio busnes â meysydd cyfrifoldeb eraill Llywodraeth Cymru ac â'r economi a'r gymdeithas ehangach.

Yr adborth a gafwyd gan rai cynrychiolwyr busnes yw y bu datgarboneiddio i rai, yn llai o flaenoriaeth nag y bu gweithredu i oroesi. Mae'r cynnydd yng nghostau tanwydd ac ynni wedi newid blaenoriaethau, gan fod rhai o'r ffyrdd o ddatgarboneiddio (ee lleihau'r defnydd o danwydd/ynni) yn helpu busnesau i leihau costau gweithredu. Bellach mae cyfle i ddatgarboneiddio ac arbed arian ar yr un pryd, sy'n golygu bod blaenoriaethau busnes a'r rheidrwydd i ddatgarboneiddio'r economi yn cyd-fynd.

Bydd datgarboneiddio economi Cymru yn dibynnu'n helaeth ar ddatgarboneiddio diwydiannau ynni-ddwys a busnesau mawr. Fodd bynnag, mae datgarboneiddio busnesau bach a chanolig hefyd yn bwysig, gan fod uchelgeisiau a thargedau lleihau carbon Cymru yn dibynnu ar gyfraniadau gan bob sector o'r economi. Busnesau bach a chanolig a microfusnesau yw ffocws y llyfryn hwn.

Mae Canolfan Hinsawdd Busnes y DU yn gydweithrediad rhwng Llywodraeth y DU, busnesau a grwpiau busnes ledled y DU. Y Ganolfan yw partner y DU yn y Ganolfan Hinsawdd Busnesau Bach a Chanolig (SME Climate Hub), sef menter fyd-eang sy'n grymuso mentrau bach a chanolig i weithredu mewn perthynas â'r hinsawdd: **Canolfan Hinsawdd Busnes y DU – cyngor ar arbed ynni a sero net ar gyfer busnesau bach a chanolig**.

Mae'r llyfryn hwn yn ategu ffynonellau eraill o wybodaeth a chymorth, er ei fod yn gosod y cyd-destun o ran strategaethau, polisïau a'r ddeddfwriaeth ar gyfer Cymru. Mae'n cynnwys data a dadansoddiadau penodol i Gymru. Ni ddylid darllen y ddogfen gyfeirio hon fel adroddiad. Yn hytrach, dylai rhanddeiliaid gyfeirio at feysydd sy'n uniongyrchol berthnasol iddynt a defnyddio'r llyfryn yn y ffyrdd sydd fwyaf defnyddiol iddynt.

# 2
# Y Pwyllgor Newid Hinsawdd



Mae'r Pwyllgor Newid Hinsawdd yn cynghori'r DU a'r llywodraethau datganoledig ar baratoi ar gyfer y newid yn yr hinsawdd. Gellir gweld ymatebion Llywodraeth Cymru i gyngor y Pwyllgor Newid Hinsawdd yn: Pwyllgor Newid Hinsawdd | LLYW.CYMRU.

Yn ei adroddiad 'Progress Report: Reducing emissions in Wales' a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2023, Progress Report: Reducing emissions in Wales – Climate Change Committee (theccc.org.uk), argymhellodd y Pwyllgor Newid Hinsawdd (yn R2023006) y dylai Llywodraeth Cymru wneud y canlynol:

> **Cyhoeddi strategaeth datgarboneiddio ar gyfer Busnesau Cymru, gan gynnwys adolygiad o gyfleoedd i flaenoriaethu amcanion Sero Net o fewn cymhellion Llywodraeth Cymru, gofynion caffael, darpariaethau cyllid a ysgogwyr polisi cynllunio.**

Penderfynodd Llywodraeth Cymru beidio â llunio 'strategaeth', gan ganolbwyntio yn lle hynny ar lunio dogfen strategol y bwriedir iddi fod yn ddefnyddiol i'r rhai sy'n rheoli busnesau, yn enwedig busnesau bach a chanolig yng Nghymru. Bwriad y 'Llyfryn Datgarboneiddio Busnes' hwn yw blaenoriaethu amcanion sero net ar ffurf cyfleoedd i fusnesau yng Nghymru, a'u cadwyni cyflenwi.

Er nad yw'r llyfryn yn mynd i'r afael â phob blaenoriaeth, mae'n rhoi sylw i themâu gan gynnwys cymorth technegol a chyllid ac ystod o sectorau yn economi Cymru.

Mae'r llyfryn yn gosod y cyd-destun strategol, yn cyflwyno data ac yn cyfeirio busnesau bach a chanolig at ffynonellau o wybodaeth a chymorth.

# 3
# Strategaethau a deddfwriaeth trosfwaol

Mae'r cyhoeddiad 'Cymru a'r Nodau Datblygu Cynaliadwy' (2019) gan Lywodraeth Cymru yn nodi'r cyd-destun ar gyfer dull Cymru o hyrwyddo datblygu cynaliadwy ac o fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd: www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-07/adroddiad-atodol-i-adolygiad-y-du-o-gynnydd-tuag-at-y-nodau-datblygu-cynaliadwy-2030_1.pdf.

> **"Gosodwyd y fframwaith polisi a sefydliadol ar gyfer datblygu cynaliadwy yng Nghymru yn gyntaf gan y ddeddfwriaeth a sefydlodd ddatganoli, Deddf Llywodraeth Cymru 1998, lle'r oedd dyletswydd i hyrwyddo datblygu cynaliadwy drwy gynllun. Cryfhawyd y fframwaith hwn yn sylweddol gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn 2015 (Deddf LlCD) drwy ymdrin â datblygu cynaliadwy mewn ffordd gynhwysfawr."**

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru argyfwng hinsawdd ym mis Ebrill 2019: Llywodraeth Cymru'n datgan ei bod yn argyfwng ar yr hinsawdd | LLYW.CYMRU.

Mae yna gorff o ddeddfwriaeth yn bodoli sy'n creu'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd a datgarboneiddio'r economi a'r gymdeithas.

## 3.1 Y genhadaeth economaidd

Mae'r genhadaeth economaidd yn ddatganiad o brif flaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer economi Gymreig ffyniannus, wyrddach a thecach. Mae'n cynnwys y pedwar prif uchelgais, sef:

1. **Pontio cyfiawn a ffyniant gwyrdd.**
2. **Platfform i bobl ifanc, gwaith teg, sgiliau a llwyddiant.**
3. **Partneriaethau cryfach ar gyfer rhanbarthau cryfach a'n heconomi bob dydd.**
4. **Buddsoddi ar gyfer twf.**

Cenhadaeth economaidd: blaenoriaethau ar gyfer economi gryfach [HTML] | LLYW.CYMRU

Mae amcan y genhadaeth o bontio teg a ffyniant gwyrdd yn sylfaenol ddibynnol ar ddatgarboneiddio economi Cymru. Mae'r llyfryn hwn yn nodi'r cyd-destun strategol a pholisi ar gyfer cyflawni'r amcan hwn o'r genhadaeth ac mae'n cynnwys cyfeiriadau at ffynonellau o gymorth, gan gynnwys cymorth technegol ac ariannol.

## 3.2 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015

Mae gan Weinidogion Cymru ddyletswydd i hyrwyddo datblygu cynaliadwy o dan adran 79 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae gan bob corff cyhoeddus ddyletswydd i hyrwyddo datblygu cynaliadwy o dan adran 3 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Disgrifir yr egwyddor datblygu cynaliadwy a'r nodau llesiant yn y Ddeddf, a'r nodau yw:




- **Cymru lewyrchus** sy'n cynnwys bod yn gymdeithas garbon isel sy'n defnyddio adnoddau'n effeithlon.
- **Cymru gydnerth** sy'n gwella bioamrywiaeth ac ecosystemau.
- **Cymru iachach** lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl.
- **Cymru fwy cyfartal** sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial.
- **Cymru o gymunedau cydlynus** gyda chymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da.
- **Cymru â diwylliant** bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu a lle mae diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg, yn cael eu gwarchod.
- **Cymru sy'n gyfrifol** ar lefel fyd-eang sy'n hyrwyddo llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol byd-eang.

Mae datgarboneiddio economi Cymru yn uchelgais sy'n cyd-fynd â nifer o'r nodau llesiant. Mae angen i Gymru ddatgarboneiddio mewn ffordd gyfrifol ac mewn ffordd sy'n hyrwyddo pontio teg a chyfleoedd unigol a chymunedol, yn ogystal â chyfrannu at ymdrechion byd-eang i leihau allyriadau carbon ac addasu i effeithiau'r newid yn yr hinsawdd.

## 3.3 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru sicrhau bod allyriadau nwyon tŷ gwydr yng Nghymru wedi'u lleihau o leiaf 100% yn 2050, o gymharu â'r llinell sylfaen.[1] Gelwir hyn hefyd yn 'sero net', sy'n golygu bod allyriadau mewn cydbwysedd â swm y nwyon yr ydym yn eu tynnu o'r atmosffer, er enghraifft drwy blannu coed.

Rhwng nawr a 2050, mae gan Gymru dargedau degawdol ar gyfer 2030 a 2040, yn ogystal â system o gyllidebau carbon sy'n pennu terfyn statudol ar faint o allyriadau y gallwn eu cynhyrchu yn ystod pob cyfnod o 5 mlynedd. Mae Cyllideb Carbon 2 yn rhedeg o 2020 i 2025 ac mae angen sicrhau gostyngiad cyfartalog o 37% o gymharu â'r llinell sylfaen, ac ar gyfer Cyllideb Carbon 3 (2026-30) mae angen cyflawni gostyngiad cyfartalog o 58%. Rhaid i allyriadau yn 2030 fod 63% yn is na'r llinell sylfaen.

Dylai'r wybodaeth a'r cyngor a ddarperir ac y cyfeirir atynt yn y llyfryn hwn gynorthwyo busnesau bach a chanolig, microfusnesau a'u cadwyni cyflenwi i ddatgarboneiddio'u gweithgareddau yn unol â chyllidebau carbon. Bydd yn canolbwyntio'n arbennig ar allyriadau Cwmpas 1 a Chwmpas 2, ond hefyd agweddau ar allyriadau Cwmpas 3:

- **Cwmpas 1 –**
  **Allyriadau uniongyrchol o adeiladau a cherbydau.**
- **Cwmpas 2 –**
  **Yr allyriadau a grëir wrth gynhyrchu ynni sydd i'w ddefnyddio mewn adeiladau a cherbydau.**
- **Cwmpas 3 –**
  **Allyriadau o'r gadwyn gyflenwi nwyddau a gwasanaethau, gan gynnwys rheoli gwastraff.**

Disgrifir y fframwaith rheoleiddio a grëwyd o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) yn dda iawn mewn adroddiad gan y Pwyllgor Newid Hinsawdd a Materion Gwledig o'r enw Adroddiad ar Reoliadau Newid yn yr Hinsawdd (Cymru) 2021, Mawrth 2021 cr-ld14183-e.pdf (senedd.wales).

## 3.4 Y contract economaidd

Cytunwyd ar gontractau economaidd â busnesau a sefydliadau y mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda nhw ac yn eu cefnogi.

Er nad ydynt yn uniongyrchol gysylltiedig â chyllid, maent wedi bod yn borth ar gyfer gwneud cais am gymorth busnes uniongyrchol megis Cronfa Dyfodol yr Economi.

Y contract economaidd: Mae'r contract economaidd | Busnes Cymru (llyw.cymru) yn cael ei werthuso ar hyn o bryd a chaiff adroddiad ei gyhoeddi yn gynnar yn 2025.

1. Y llinell sylfaen yw 1990 neu 1995, gan ddibynnu ar y nwy tŷ gwydr dan sylw.

# 4
# Trosolwg o Fentrau Bach a Chanolig



Dangosir pwysigrwydd busnesau bach a chanolig i economi Cymru yn y Bwletin Ystadegol:
Dadansoddiad o faint y busnesau: 2023 | LLYW.CYMRU

Yn 2023 roedd busnesau bach a chanolig (0 i 249 o weithwyr) yng Nghymru, yn cyfrif am:

- 99.3% o fentrau gweithredol yng Nghymru
- 62.3% o gyflogaeth
- 43.4% o drosiant.

Mae busnesau bach a chanolig felly yn hollbwysig i economi Cymru.

### Cyfran y busnesau Cymreig fesul diwydiant sydd â 250 neu lai o weithwyr, wedi'u rhannu yn ôl trosiant (2021)


| Band maint busnes | Amaethyddiaeth | Cynhyrchu | Adeiladu | Dosbarthu, gwestai, bwytai a thrafnidiaeth | Gwasanaethau ariannol a busnes | Gweinyddiaeth gyhoeddus, iechyd, ac addysg | Gwasanaethau eraill |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfran o fusnesau bach a chanolig | 86% | 25% | 76% | 48% | N/A | 61% | 72% |

Cafodd Ricardo AEA ei gomisiynu i bennu llinell sylfaen o allyriadau carbon ar gyfer y sector busnesau bach a chanolig yng Nghymru. 2022 oedd y flwyddyn ddiweddaraf yr oedd data cyflawn ar gael ar ei chyfer. Ystyriwyd allyriadau cwmpas 1, 2 a 3.

| CWMPAS | $ktCO_2e$ |
|---|---|
| Cwmpas 1 | 2912 |
| Cwmpas 2 | 180 |
| Cwmpas 3 | 4698 |
| Cyfanswm | 7790 |

Mae adroddiad Ricardo AEA yn cynnwys cyflwyniad o effeithiau carbon yn ôl Sectorau Cyfathrebu Cenedlaethol. Mae hyn yn amlygu, o ran y sectorau hynny, ac ar gyfer allyriadau cwmpas 1 a 2, mai 'Trafnidiaeth' sy'n cael yr effaith garbon fwyaf.

**Ffigur 1: Llinell sylfaen Cwmpas 1 a 2 yn ôl y Sectorau Cyfathrebu Cenedlaethol (2021)**



# 5
# Y gallu i wrthsefyll yr hinsawdd

Hyd yn oed yn y senarios achos gorau ar gyfer cynhesu byd-eang yn y dyfodol, bydd newidiadau pellach yn digwydd i'n systemau hinsawdd a thywydd o hyd. Bydd codiadau pellach yn lefel y môr a bydd tywydd eithafol fel stormydd, llifogydd, tywydd poeth a sychder yn gynyddol eithafol ac yn digwydd yn fwy aml. Mae yna risgiau cysylltiedig i fusnes a diwydiant, gan gynnwys risgiau sy'n deillio o effeithiau posibl ar iechyd a chynhyrchiant staff, dŵr, pŵer a TGC/telathrebu, cludiant, cadwyni dosbarthu a chadwyni cyflenwi. Mae'n bwysig bod busnesau'n cymryd camau rhesymol i ystyried a lliniaru'r risgiau hyn cymaint â phosibl.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael ym mhapur briffio risg hinsawdd **Pwyllgor Newid Hinsawdd ar gyfer y sector busnes**.

Cyhoeddwyd cynllun ymaddasu cenedlaethol presennol Llywodraeth Cymru ar gyfer yr hinsawdd, **Ffyniant i bawb: Cymru sy'n effro i'r hinsawdd**, yn 2019. Mae strategaeth ddiweddaredig newydd i Gymru ar gyfer gwrthsefyll y newid yn yr hinsawdd i'w chyhoeddi ddiwedd 2024.

Mae'r adroddiad gan Ricardo AEA sy'n sail i'r llyfryn hwn, yn dangos bod digwyddiadau tywydd eithafol yn digwydd yn amlach ac yn dod yn fwy difrifol. Mae hyn yn arwain at fwy o lifogydd a mwy o cyfnodau o sychder sychder.


Gall llifogydd effeithio'n uniongyrchol ar eiddo busnes, offer a stoc. Gall effeithio ar fynediad i'r gweithlu a chwsmeriaid, a danfoniadau nwyddau, deunyddiau a chynhyrchion. Gall llifogydd hefyd amharu ar ddarparu gwasanaethau, gan gynnwys cyfleustodau fel ynni, dŵr a dŵr gwastraff, gwasanaethau post a gwasanaethau brys pe bai eu hangen.

Gall cyfnodau o sychder arwain at risg uwch o dân a disbyddu adnoddau dŵr, a gall gwres eithafol amharu ar wasanaethau cludiant.

Gall tymereddau eithafol effeithio ar offer a staff, gan olygu bod angen gwresogi neu oeri offer, cynhyrchion a mannau lle mae staff yn gweithio. Lle mae staff yn gweithio yn yr awyr agored, efallai y bydd angen newid patrymau gwaith er mwyn osgoi tymereddau eithafol.

Dylai busnesau ystyried pa gynlluniau wrth gefn sydd eu hangen arnynt er mwyn sicrhau parhad gweithredol. Gall hyn gynnwys sicrhau bod systemau TG wedi'u lleoli'n ddiogel (gan gynnwys lleoedd nad oes eithafion tymheredd ynddynt); cynhyrchu ynni ar y safle (gan gynnwys o ffynonellau adnewyddadwy) a/neu storio dŵr i'w ddefnyddio mewn prosesau a/neu systemau oeri. Dylai busnesau asesu'r risgiau posibl a'r risgiau cynyddol sy'n deillio o effeithiau'r newid yn yr hinsawdd, a sicrhau eu bod wedi'u hyswirio yn eu herbyn fel y bo'n briodol.

# 6
# Adeiladau Busnes



O ystyried costau uchel ynni, mae angen i fusnesau sydd wedi'u lleoli mewn siopau, swyddfeydd, ffatrïoedd, gweithdai, bwytai, sinemâu, warysau, garejys ac ati sicrhau bod eu hadeiladau'n defnyddio ynni mewn ffordd effeithlon. Mae angen insiwleiddio, dylunio a threfnu adeiladau mewn ffordd sy'n helpu i'w hawyru yn ystod tywydd poeth a chadw gwres yn ystod tywydd oer.

Mae'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn darparu cymorth i gyflogwyr baratoi ar gyfer dyfodol cynhesach, ac yn ystod cyfnodau o wres ac oerfel: **Is it too cold or hot to work? (hse.gov.uk)**

Deddf Ynni 2011: Rheoliadau Effeithlonrwydd Ynni (Eiddo ar Rent yn Breifat) (Cymru a Lloegr) 2015 [Rheoliadau Safonau Gofynnol Effeithlonrwydd Ynni]

Mae'r Rheoliadau Safonau Gofynnol Effeithlonrwydd Ynnii yn orfodol ar gyfer adeiladau masnachol yng Nghymru ers 1 Ebrill 2023. Nid yw landlordiaid yn gallu rhentu adeiladau sydd â sgôr Tystysgrif Perfformiad Ynni o F neu G.

Mae rhai adeiladau yn esempt o'r Rheoliadau, fel yr eglurir yn y ddogfen a ganlyn: **Guidance on PRS exemptions and Exemptions Register evidence requirements – GOV.UK (www.gov.uk)**

Cynigiwyd, o 1 Ebrill 2027 ymlaen, y byddai'n ofynnol i bob eiddo annomestig i'w rentu fod â chyfradd Tystysgrif Perfformiad Ynni gofynnol o C (oni bai ei fod yn esempt), ac o 1 Ebrill 2030 ymlaen fod â gradd Tystysgrif Perfformiad Ynni o B o leiaf (oni bai ei fod yn esempt). Cafodd y cynigion hyn eu gollwng ym mis Medi 2023 fel rhan o adolygiad, gan Lywodraeth y DU ar y pryd, o fesurau i gyflawni sero net erbyn 2050.

Pennir gradd Tystysgrif Perfformiad Ynni adeilad masnachol gan Aseswr Ynni Annomestig cymwys ar sail y deunyddiau adeiladu, a'r ffordd mae'r adeilad wedi'i inswleiddio, ei wresogi, ei awyru, ei oeri a'i oleuo. Mae angen y Dystysgrif Perfformiad Ynni a'r adroddiad atodol os yw'r adeilad yn cael ei werthu, ei rentu ac, o bosibl, ei addasu.

Mae Tystysgrifau Perfformiad Ynni yn para 10 mlynedd, ac ar hyn o bryd maent yn cael eu rheoleiddio gan swyddogion Safonau Masnach yr awdurdodau lleol.

Gall safleoedd busnes nid yn unig leihau eu heffeithiau carbon, ond hefyd addasu i dymereddau mwy eithafol drwy:

- gwella ffabrig adeiladau
- defnyddio goleuadau LED
- defnyddio mesuryddion clyfar
- newid tanwydd
- gosod seilwaith ar gyfer cynhyrchu trydan neu wres ar y safle o ffynonellau adnewyddadwy.

Mae cyngor defnyddiol ar y materion hyn ar gael oddi wrth:

Ynni | Busnes Cymru (llyw.cymru)

Cyngor i fusnesau ac awdurdodau lleol – Yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni

Gweithredu ar Hinsawdd Cymru (llyw.cymru)

Mae data o adroddiad Ricardo AEA yn dangos nifer y ceisiadau dilysu (adeiladau) yn ôl sgôr Tystysgrif Perfformiad Ynni:

| Blwyddyn | Nifer y ceisiadau dilysu | Cyfanswm arwynebedd llawr ($m^2$) | A | A+ | B | C | D | E | Islaw E |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 2023 | 6,458 | 4,216,630 | 300 | 19 | 1,665 | 2,338 | 1,437 | 606 | 93 |

Mae hyn yn dangos y potensial a'r cyfle sylweddol i leihau effeithiau carbon a chostau ynni drwy wella sgorau Tystysgrifau Perfformiad Ynni. Mae adroddiad Ricardo AEA yn cynnwys argymhellion ac asesiadau manwl o effeithiau ymyriadau penodol. Mae'r 20 prif argymhelliad wedi'u cynnwys isod:

### Yr 20 prif gategori o argymhellion Tystysgrif Perfformiad Ynni

| Categori argymhelliad | Enghraifft o argymhelliad | % o'r cyfanswm |
|---|---|---|
| Gollwng aer | Cynnal prawf gwasgedd, a nodi a thrin unrhyw ollyngiadau aer a nodir. Cofnodi'r canlyniad yn y cyfrifiad Tystysgrif Perfformiad Ynni. | 5.9 |
| Pwmp gwres o'r aer | Ystyried gosod pwmp gwres o'r aer. | 3.1 |
| Newid boeler | Ystyried gosod boeler cyddwyso yn lle boeler gwresogi. | 2.8 |
| Gosod deunydd inswleiddio mewn waliau ceudod | Mae rhai waliau ceudod heb eu hinswleiddio – gosod deunydd i inswleiddio waliau ceudod. | 3.5 |
| Gosod system oeri | Mae effeithlonrwydd oeryddion yn cael ei ragosod. Argymhellir y dylid archwilio'r system oeri yn fanwl er mwyn deall pa mor effeithlon ydyw a pha welliannau posibl y gellid eu gwneud iddi. | 0.8 |
| Gwydr | Mae rhai mathau o wydr wedi'u hinswleiddio'n wael.. Newid/gwella'r gwydr a/neu'r fframiau. | 4.5 |

| Categori argymhelliad | Enghraifft o argymhelliad | % o'r cyfanswm |
|---|---|---|
| Pwmp gwres o'r ddaear | Ystyried gosod pwmp gwres o'r ddaear. | 1.7 |
| Rheolyddion gwresogi | Ychwanegu'r rheolyddion gorau posibl i danio/ddiffodd y system wresogi. | 20.5 |
| Archwilio'r system wresogi yn fanwl | Mae effeithlonrwydd generaduron gwres yn cael ei ragosod. Argymhellir archwilio system y generadur gwres er mwyn deall pa mor effeithlon ydyw a pha welliannau posibl y gellid eu gwneud iddi. | 2.7 |
| Gosod gwresogydd dŵr effeithlon | Gosod gwresogydd dŵr mwy effeithlon. | 1.4 |
| Inswleiddio waliau fewnol | Mae rhai waliau solet wedi'u hinswleiddio'n wael – gosod neu wella deunydd inswleiddio waliau mewnol. | 1.9 |
| Goleuadau | Gosod lampau fflwroleuol cryno (CFL) yn lle lampau GLS twngsten. Cyfnod ad-dalu yn dibynnu ar oriau defnydd. | 18.0 |
| Inswleiddio llofftydd | Mae rhai llofftydd wedi'u hinswleiddio'n wael – gosod/gwella'r deunydd inswleiddio. | 1.7 |
| System gwresogi dŵr yn y man lle'i defnyddir | Ystyried gosod system gwresogi dŵr yn y man lle'i defnyddir yn lle system dŵr poeth. | 0.8 |
| Inswleiddio'r to | Mae'r to wedi'i inswleiddio'n wael. Gosod neu wella deunydd inswleiddio'r to. | 1.3 |
| Gwydr dwbl | Mae gan rai ffenestri werth U uchel – ystyried gosod gwydr eilaidd. | 5.7 |
| Mesurau rheoli solar (araenu/arlliwio) | Mae risg sylweddol o orboethi mewn rhai mannau. Ystyried mesurau rheoli solar megis araen adlewyrchol ar ffenestri neu osod dyfeisiau cysgodi arnynt. | 4.5 |
| Paneli ffotofoltäig solar | Ystyried gosod paneli ffotofoltäig. | 4.9 |
| Systemau solar i gwresogi dŵr | Ystyried gosod system solar i wresogi dŵr. | 5.8 |
| Tyrbin gwynt | Ystyried gosod tyrbin(au) gwynt ar adeilad. | 5.7 |

Y ddau brif argymhelliad (o ran effaith) yw goleuadau a rheolyddion gwresogi, ac mae ganddynt botensial sylweddol i leihau'r defnydd o ynni ac felly effeithiau carbon a chostau ariannol hefyd.

# 7
# Ynni

Cafodd Regen ei gomisiynu gan Lywodraeth Cymru i asesu'r defnydd o ynni yng Nghymru ar gyfer y cyfnod rhwng 2019 a 2021: **www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2022-06/adroddiad-defnyddio-ynni-yng-nghymru.pdf**

Yn 2019, cafodd cyfanswm o 92.8 TWh o ynni ei ddefnyddio ledled Cymru. Roedd hyn yn ostyngiad o'r 109.9 TWh a ddefnyddiwyd yn 2005. Amcangyfrifwyd bod tua 6% o'r cyfanswm hwn wedi'i ddefnyddio gan y sector 'masnachol'.

Yn 2022 amcangyfrifwyd:

- bod 29 TWh o drydan wedi'u cynhyrchu yng Nghymru a bod 13 TWh o drydan wedi'u defnyddio ynddi
- bod cyfanswm o 29 TWh o drydan wedi'u cynhyrchu yng Nghymru, y daeth 7.9 TWh ohono o ffynonellau adnewyddadwy a 21.1 TWh o danwyddau ffosil
- bod mwy na 10.4 TWh o drydan a gwres wedi'u cynhyrchu yng Nghymru o ffynonellau adnewyddadwy: **Cynhyrchu Ynni yng Nghymru: 2022 (llyw.cymru)**.

Y ffordd fwyaf effeithiol o ddatgarboneiddio economi Cymru, gan gynnwys ei busnesau bach a chanolig, fyddai drwy grid carbon isel sy'n darparu trydan o ffynonellau adnewyddadwy. Mae'r potensial ar gyfer ynni adnewyddadwy yn cynnwys datblygu ynni morol – gwynt, tonnau a llanw – i gynhyrchu trydan. Mae angen hefyd leihau dibyniaeth ar nwy, drwy newid i drydan, neu efallai i hydrogen, a gynhyrchir gan ddefnyddio trydan adnewyddadwy.

Mae potensial sylweddol iawn i fentrau fel ffermydd gwynt arnofiol yn y Môr Celtaidd.

Mae Ystad y Goron yn amcangyfrif potensial Rownd Prydlesu 5: **Rownd Prydlesu 5: Gwynt ar y Môr | Ystad y Goron**.

> **"Nod Rownd Prydlesu 5: Gwynt ar y Môr yw creu sector gwynt arnofiol newydd yn y Môr Celtaidd oddi ar arfordiroedd De Cymru a De Orllewin Lloegr. Disgwylir mai hwn fydd cam cyntaf datblygu masnachol yn y Môr Celtaidd, gan gyflwyno cyfle cyffrous i greu hyd at 4.5GW o gapasiti ynni adnewyddadwy newydd, wrth weithredu fel sbardun ar gyfer cyfleoedd cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol newydd. Yn Natganiad yr Hydref ym mis Tachwedd 2023, cadarnhaodd Llywodraeth y DU ei bwriad i ddatgloi gofod ar gyfer capasiti pellach o 12GW yn y Môr Celtaidd."**

Er ei bod yn ddichonadwy datgarboneiddio busnesau bach a chanolig yng Nghymru drwy ddefnyddio ynni adnewyddadwy a ddarperir drwy'r Grid Cenedlaethol, bydd hyn yn gofyn am fuddsoddi arian ac amser sylweddol. Fel y disgrifiwyd yn gynharach (Pennod 3) gall busnesau bach a chanolig gymryd camau sylweddol tuag at ddatgarboneiddio o leiaf rywfaint o'r ynni a ddefnyddir ganddynt drwy fuddsoddi mewn cynhyrchu ynni o ffynonellau adnewyddadwy ar y safle.

## 7.1 Targedau ynni

Ym mis Gorffennaf 2023, cyhoeddodd y Gweinidog Newid Hinsawdd Ddatganiad Ysgrifenedig: 'Cyhoeddi Crynodeb o'r Ymatebion i'r Ymgynghoriad ar Dargedau Cymru ar gyfer Ynni Adnewyddadwy': Datganiad Ysgrifenedig: Cyhoeddi Crynodeb o'r Ymatebion i'r Ymgynghoriad ar Dargedau Cymru ar gyfer Ynni Adnewyddadwy (14 Gorffennaf 2023) | LLYW.CYMRU

Roedd yn cynnwys yr ymrwymiadau canlynol:

> **"Rwy'n mabwysiadu'r targed ar gyfer Cymru i gynhyrchu 100% o'r trydan rydym yn ei ddefnyddio bob blwyddyn drwy ffynonellau adnewyddadwy erbyn 2035, a pharhau i wneud hynny o hynny ymlaen."**

> **"Gan ddangos ein huchelgais ar gyfer y sector hwn [ynni adnewyddadwy cymunedol a lleol], rydym yn mabwysiadu'r cynnig i o leiaf 1.5 GW o gapasiti ynni adnewyddadwy fod o dan berchnogaeth leol erbyn 2035, gan gynyddu ein targed presennol ar gyfer 1 GW erbyn 2030."**

> **"... ein targed ... fydd i 580,000 o bympiau gwres gael eu gosod yng Nghymru erbyn 2035, yn dibynnu ar gymorth gan Lywodraeth y DU a lleihad yng nghost y dechnoleg."**

## 7.2 Y strategaeth wres

Cafodd y fersiwn ddrafft o'r ddogfen ymgynghori ar gyfer y Strategaeth Wres i Gymru ei chyhoeddi yn 2023 a chafodd copi terfynol ei gyhoeddi ym mis Gorffennaf 2024. Mae'n amlinellu ein gweledigaeth a'n dull o ddatgarboneiddio gwres mewn cartrefi, y sector cyhoeddus, diwydiant a busnesau erbyn 2050, er mwyn cefnogi'r Cynllun Sero Net. Mae'n nodi'r prif gamau galluogi i'w gweithredu yn y tymor byr i ganolig ar gyfer pontio dros yr hirdymor. Strategaeth ar gyfer yr hirdymor yw hon sy'n adlewyrchu maint yr heriau a'r angen am ystod o ymyriadau, gan gynnwys meithrin hyder mewn technolegau newydd ac ymwybyddiaeth ohonynt, uwchsgilio'r gweithlu a datblygu cadwyni cyflenwi. Mae pontio i wres carbon isel yn gyfle i sicrhau ein llesiant yn y dyfodol a helpu i adeiladu economi carbon isel gynaliadwy. Mae'n cwmpasu pob sector, o wresogi tymheredd isel ar gyfer cartrefi i wres diwydiannol tymheredd uchel. Mae'n cydnabod, yn ogystal â bod yn her dechnegol, fod gwres carbon isel a fforddiadwy hefyd yn her ddynol: www.llyw.cymru/strategaeth-gwres

## 7.3 Gridiau ynni'r dyfodol

Mae trydan a nwy yn cael eu trosglwyddo o'r mannau cynhyrchu i'r mannau defnydd drwy rwydweithiau dosbarthu, sef llinellau trawsyrru a phibellau. Disgrifir y rhwydweithiau hyn yn dda iawn gan yr Energy Networks Association (ENA): Energy Networks Association (ENA) – The voice of the networks.

> **Mae ein system ynni yn cynnwys rhwydweithiau trawsyrru a dosbarthu. Cyfres o wifrau a phibellau yw'r rhain sy'n cludo ynni o'i ffynhonnell i'r man lle caiff ei ddefnyddio. Y gweithredwyr rhwydwaith ynni sy'n gyfrifol am y rhwydweithiau hyn.**
>
> **Meddyliwch am rwydweithiau trawsyrru fel traffyrdd ar gyfer trydan a nwy. Maent yn cludo llawer iawn o drydan neu nwy dros bellteroedd maith, yn union fel ffordd cyflymder uchel iawn sy'n cysylltu dinasoedd.**
>
> **Mae rhwydweithiau dosbarthu yn debycach i'r ffyrdd llai yn eich cymuned. Maen nhw'n mynd â thrydan a nwy o'r llinellau trawsyrru a'r pibellau ac yn dod â nhw i'ch cartref, busnes, neu i unrhyw le arall lle rydych chi'n defnyddio ynni. Mae'r llinellau a'r pibellau hyn yn sicrhau bod y trydan a'r nwy yn cyrraedd y man lle mae eu hangen yn lleol.**
>
> **Yn gryno, mae rhwydweithiau trawsyrru yn cwmpasu'r daith hir o le mae ynni'n cael ei gynhyrchu i le mae ei angen ar raddfa fawr, tra bo rhwydweithiau dosbarthu yn mynd ag ef, dros y filltir olaf i garreg eich drws.**

Y Grid Cenedlaethol sy'n gyfrifol am y rhwydwaith trawsyrru trydan yng Nghymru: Y Grid Cenedlaethol – Hafan a National Gas sy'n gyfrifol am y rhwydwaith trawsyrru nwy: Gas Transmission | National Gas.

Mae gweithredwyr rhwydwaith dosbarthu yn gyfrifol am gyflenwi trydan a nwy o linellau trawsyrru a phibellau i fusne sau bach a chanolig yng Nghymru. Maent wedi'u trwyddedu gan Ofgem: Croseo i Ofgem | Ofgem.

Penodwyd Energy Systems Catapult gan Lywodraeth Cymru i ddatblygu llwybrau i ddatgarboneiddio'r system ynni – Grid Ynni'r Dyfodol i Gymru – Energy Systems Catapult.

Nod prosiect Gridiau Ynni'r Dyfodol i Gymru yw sicrhau llwybr system ynni'r dyfodol i Gymru, hyd at 2050, sy'n cydymffurfio â sero net, a hynny drwy gydgrynhoi safbwynt eang, ar draws y cwmnïau rhwydwaith sy'n gweithredu yng Nghymru. Mae'r adroddiadau hefyd yn nodi'r prif oblygiadau i weithredwyr rhwydweithiau trydan a nwy a'r camau sydd angen eu cymryd i ddatblygu rhwydweithiau ynni yng Nghymru fel rhan o system ynni ehangach y DU. Fel rhan o'r dadansoddiad, mae'r adroddiadau'n cyflwyno argymhellion

i Lywodraeth Cymru eu datblygu ymhellach, sy'n gyson â'i huchelgeisiau i gyflymu datgarboneiddio a'i rôl yn y dirwedd llywodraethu ynni.

Adroddiad technegol ac adroddiad mewnwelediadau Gridiau Ynni'r Dyfodol:

**Gridiau Ynni'r Dyfodol i Gymru: adroddiadau | LLYW.CYMRU**

**Gridiau Ynni'r Dyfodol i Gymru: Adroddiad mewnwelediadau (llyw.cymru)**

Mae Cynlluniau Ynni Ardaloedd Lleol yn ffyrdd cydweithredol sydd wedi eu seilio ar ddata o nodi'r newidiadau sydd eu hangen mewn systemau ynni lleol i gyflawni sero net.

**Cynllunio Ynni Ardaloedd Lleol yng Nghymru – Energy Systems Catapult**

Penodwyd Energy Systems Catapult yn gynghorydd technegol i awdurdodau lleol er mwyn cynorthwyo â'r gwaith o ddatblygu Cynlluniau Ynni Ardaloedd Lleol. Gan weithio gyda rhanddeiliaid allweddol, mae'r awdurdodau lleol yn arwain y gwaith o ddatblygu Cynlluniau Ynni Ardaloedd Lleol.

## 7.4 Rhan busnesau bach a chanolig mewn arbed ynni ac ynni adnewyddadwy

Mae cyfle pwysig i fusnesau bach a chanolig yng Nghymru fanteisio ar y newid i economi sy'n seiliedig ar ynni carbon isel. Bydd yn ofynnol i fusnesau bach a chanolig ddylunio, gweithgynhyrchu, gosod, atgyweirio, datgymalu ac ailgylchu seilwaith ynni adnewyddadwy gan gynnwys:

- pympiau gwres (o'r aer ac o'r ddaear)
- paneli solar ffotofoltäig
- paneli solar thermol.

Mae cyfleoedd hefyd i fusnesau bach a chanolig a all wneud y canlynol:

- gwella ffabrig adeiladau
- gosod atalyddion drafftiau
- gosod goleuadau LED
- gosod mesuryddion clyfar
- gosod pwyntiau gwefru cerbydau trydan
- cynnal a chadw cerbydau trydan.

Mae gan fusnesau bach a chanolig sy'n gweithio ym meysydd arbed ynni neu ynni adnewyddadwy gyfleoedd sylweddol i weithio ar ddatgarboneiddio busnesau ac eiddo domestig. Er mwyn manteisio ar y cyfleoedd hyn mae angen i fusnesau bach a chanolig allu recriwtio neu gontractio pobl sydd â'r sgiliau, yr hyfforddiant, y cymwysterau a'r profiad angenrheidiol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi blaenoriaeth i hyrwyddo 'sgiliau sero net': **Cymru gryfach, decach a gwyrddach: sgiliau sero net | LLYW.CYMRU**


Mae darparu sicrwydd drwy gynlluniau fel 'Go Renewable': **www.gorenewable.org.uk/Home/About** yn bwysig. Anogir busnesau bach a chanolig yng Nghymru i weithio gyda mentrau fel hyn a chyda sefydliadau fel MCS: **Amdanom Ni – MCS (mcscertified.com)** bellach yn annibynnol ar y Llywodraeth, ond yn flaenorol fe'i gelwid y Microgeneration Certification Scheme) a'r Ymddiriedolaeth Arbed Ynni: **Ymddiriedolaeth Arbed Ynni** i gefnogi buddsoddiad yn ystod y newid i ynni adnewyddadwy, a hynny drwy achredu a mabwysiadu safonau uchel o waith ac offer.

Cafodd tri llwybr eu modelu gan Ricardo AEA er mwyn cyflawni sero net erbyn 2050, sef opsiynau ymdrech 'uchel', 'canolog' ac 'isel'. Mae effeithiau cronnol dull ymdrech uchel yn cael eu crynhoi isod ac maent yn dangos, ar gyfer ystod o ymyriadau, yr arbedion allyriadau cronnol (kt$CO_2$e).

## Mesur senario ymdrech uchel – arbedion allyriadau cronnol

| | $ktCO_2e$ | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | 2030 | 2035 | 2040 | 2045 | 2050 |
| Mesurau lleihau gan ddiwydiant | 131 | 311 | 462 | 778 | 522 |
| Busnesau bach a chanolig sy'n gweithgynhyrchu pympiau gwres | 51 | 247 | 553 | 946 | 1,388 |
| Busnesau bach a chanolig sy'n cynhyrchu hydrogen | – | 12 | 245 | 653 | 1,061 |
| Busnesau bach a chanolig sy'n gweithgynhyrchu trydan yn uniongyrchol | 59 | 324 | 749 | 1,310 | 1,957 |
| Mesurau lleihau gan fusnesau gwasanaethau bach a chanolig | 121 | 233 | 342 | 449 | 385 |
| Pympiau gwres busnesau bach a chanolig yn gyffredinol | 115 | 564 | 1,267 | 2,168 | 3,183 |
| Trydaneiddio – busnesau bach a chanolig yn gyffredinol | 21 | 114 | 263 | 459 | 684 |
| Newid tanwydd, cerbydau trydan | 1,318 | 5,699 | 10,537 | 15,428 | 20,361 |
| Mesurau lleihau trafnidiaeth | 403 | 805 | 1,207 | 1,609 | 2,011 |
| Gosod paneli solar ffotofoltäig | 112 | 213 | 311 | 373 | 399 |

# 8
# Gweithgynhyrchu



Mae'r sector gweithgynhyrchu yn allweddol i ffyniant cymdeithasol ac economaidd Cymru, yn ogystal â bod yn rhan o'n hunaniaeth a'n treftadaeth genedlaethol. Yn ôl data'r Swyddfa Ystadegau Gwladol, mae mwy na 5,700 o gwmnïau'n darparu bron i 150,000 o swyddi, sy'n cynrychioli mwy na 10% o gyfanswm swyddi'r gweithlu yng Nghymru. Mae hefyd yn cyfrannu 17.3% o'n hallbwn cenedlaethol (gwerth ychwanegol gros), sef y cyfraniad gweithgynhyrchu canrannol uchaf at werth ychwanegol gros o blith holl ranbarthau'r DU.

Cafodd y Cynllun Gweithredu Gweithgynhyrchu **'Dyfodol gweithgynhyrchu i Gymru – ein taith tuag at Gymru 4.0'** ei ddatblygu drwy broses ymgynghori ffurfiol a chafodd ei lywio gan arolwg "Gwiriad Iechyd" o'r sector. Cafwyd adborth i'r ymgynghoriad a bu ymgysylltu helaeth pellach â rhanddeiliaid, gan gynnwys ymgysylltu ag undebau llafur ac academyddion. Cynhaliwyd hefyd nifer o drafodaethau bord gron gyda'r diwydiant a hwyluswyd gan gorff cynrychioliadol y sector, Make UK, a Diwydiant Cymru, sy'n cynrychioli llais diwydiannau yng Nghymru. Mae'r Cynllun Gweithredu Gweithgynhyrchu yn nodi'r meysydd lle rydym yn canolbwyntio ein hymdrechion ar y cyd, ar sail chwe amcan strategol:

- Mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd drwy ddatgarboneiddio'r sector gweithgynhyrchu yng Nghymru, yn seiliedig ar fethodoleg yr economi gylchol, gweler pennod 14.
- Datblygu'r amodau i angori cwmnïau gweithgynhyrchu allweddol yng Nghymru, gan gynnwys darparu seilwaith modern a chadwyni cyflenwi cadarn.
- Nodi a datblygu'r sgiliau angenrheidiol ar gyfer y gweithlu ac arweinwyr er mwyn cyflawni 'Cymru 4.0'.
- Cryfhau cydweithio rhwng rhanddeiliaid i fanteisio ar newid technolegol a chyflawni arloesedd mwy masnachol yn ddi-oed.
- Sefydlu egwyddorion cyflogaeth 'Gwaith Teg' yng Nghymru, gan hyrwyddo cynhwysiant, diogelwch a gwarchod ein treftadaeth ddiwylliannol.
- Rhoi cymorth busnes ar waith i alluogi gweithgynhyrchwyr yng Nghymru i ateb y galw am gynnyrch sy'n bwysig yn strategol yn y dyfodol.

O fewn y chwe amcan hyn mae ystod o weithgareddau cyfredol ac arfaethedig a fydd yn cyfrannu at eu llwyddiant cyffredinol. O ran datgarboneiddio'r sector:

- Rydym yn cynnal gwaith mapio cadwyni cyflenwi mewn meysydd sydd o bwysigrwydd strategol i Gymru ac a fydd yn darparu cyfleoedd i weithgynhyrchwyr yng Nghymru

yn y tymor byr, canolig a hir. Mae ein ffocws cychwynnol ar ddatgarboneiddio ac ynni adnewyddadwy ac mae'n cynnwys ffermydd gwynt ar y môr (sefydlog ac arnofiol), y Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio a darparu seilwaith gwefru cerbydau trydan. Yr amcan yw nodi'r cadwyni cyflenwi presennol ac, yn bwysicaf oll, gadwyni cyflenwi posibl yn y dyfodol yng Nghymru.

- Mae rhaglen Lean Clusters Toyota wedi cefnogi sawl cwmni i wella'u perfformiad drwy weithredu egwyddorion y Toyota Way, sef meddylfryd systemau. Un o sgil-gynhyrchion yr effeithlonrwydd cynyddol hwn yw gostyngiad yn yr ynni a wastreffir a lleihau'r ôl troed carbon. Er enghraifft, mae Rototherm wedi cynyddu eu cynhyrchiant 300%, mae Fitzgerald Plant Services wedi lleihau eu diffygion 77%, mae Chester Medical wedi lleihau eu gwastraff 66% ac mae Seda wedi cynyddu eu hallbwn dyddiol gan gynhyrchu 200,000 yn fwy o unedau 200,000 o unedau.
- Byddwn yn parhau i weithio gyda diwydiant a rhanddeiliaid ehangach i sicrhau bod cwmnïau gweithgynhyrchu yn elwa ar y gefnogaeth ehangach sydd ar gael megis ein Cynllun Cefnogi Arloesi Hyblyg, a Chronfa'r Economi Gylchol, yn ogystal â chefnogaeth gan Busnes Cymru a Banc Datblygu Cymru. Mae hyn yn cynnwys y rhan hollbwysig y mae cynlluniau Diwydiant Cymru a Diwydiant Sero Net Cymru yn eu chwarae mewn sicrhau bod cefnogaeth yn cyd-fynd ag anghenion diwydiant ar draws diwydiannau ynni a diwydiannau charbon-ddwys er mwyn helpu i ddatgarboneiddio prosesau diwydiannol.

Rydym yn defnyddio asedau fel Canolfan Ymchwil Gweithgynhyrchu Uwch Cymru, sydd bellach â 50+ aelod o staff yn gweithio ar brosiectau gweithredol sy'n werth bron i £5 miliwn, sy'n galluogi cwmnïau i gael mynediad at dechnolegau gweithgynhyrchu uwch er mwyn ysgogi gwelliannau mewn cynhyrchiant, perfformiad ac ansawdd. Wrth symud ymlaen, rydym yn gweithio gydag Innovate UK fel rhan o'n Cynllun Arloesi Cydweithredol i Gymru i archwilio sut y gallwn wella'r ffordd yr ydym yn cydgysylltu ein hymdrechion i gefnogi arloesedd ar draws y sector gweithgynhyrchu yng Nghymru, gan gynnwys y rhan y gallai Sefydliad Gweithgynhyrchu Cenedlaethol i Gymru ei chwarae.

# 9
# Manwerthu



Ym mis Mawrth 2022, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ‘Datganiad sefyllfa’r sector manwerthu’: **Datganiad sefyllfa’r sector manerthu [HTML] | LLYW.CYMRU**.

Mae’n datgan: “Y sector manwerthu yw’r cyflogwr sector preifat mwyaf yng Nghymru, gyda 114,000 o weithwyr ac yn cyfrif am 6.0% o werth ychwanegol gros Cymru. Mae’r sector manwerthu eisoes yn cael effaith uniongyrchol ar fywydau a bywoliaeth pobl a chymunedau ledled Cymru. Mae ei werth yn ymestyn y tu hwnt i fudd economaidd.”

Mae Llywodraeth Cymru a’i phartneriaid o’r sector manwerthu yn trafod materion a chamau gweithredu yn y Fforwm Manwerthu. Ym mis Mehefin 2022, cyhoeddodd y Fforwm Manwerthu ei weledigaeth a rennir: **Gweledigaeth strategol a rennir ar gyfer y sector manwerthu [HTML] | LLYW.CYMRU**. Dilynwyd hyn gan drafodaethau yn y Fforwm Manwerthu ynglŷn â chamau i’w cymryd i wireddu’r weledigaeth.


Ym mis Mai 2023, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y ‘cynllun gweithredu manwerthu’: **Cynllun gweithredu manwerthu | LLYW.CYMRU**. Mae’r canlynol ymhlith y canlyniadau a ragwelir:

- mae’r sector manwerthu’n symud yn gyflym tuag at gyflawni sero net gyda dros 50% o adeiladau yng Nghymru ar sero net cyn 2030; ac
- mae cadwyni cyflenwi manwerthu yn foesegol ac yn gyfrifol a, lle bo’n bosibl, yn cael eu cwtogi i leihau ôl troed byd-eang y sector.

Mae’r cynllun gweithredu yn cynnwys y camau gweithredu canlynol:

- archwilio opsiynau i gefnogi safleoedd busnesau bach i ddefnyddio ynni adnewyddadwy a mentrau datgarboneiddio fel:
  - ôl-osod drysau ar oergelloedd a rhewgelloedd er mwyn lleihau’r ôl troed carbon
  - newid goleuadau i ddefnyddio goleuadau LED
  - gosod deunyddia insiwleiddio/mesurau atal drafftiau er mwyn arbed costau ynni
  - gosod pympiau solar a/neu bympiau gwres (o’r ddaear neu o’r aer) pan fo modd
  - defnyddio cerbydau trydan pan fo modd.
- datblygu adnoddau i godi ymwybyddiaeth o gynlluniau ynni adnewyddadwy a datgarboneiddio, gan gynnwys ystyried prosiect stryd werdd yng Nghymru a chynllun peilot cynhyrchu ynni mewn parc manwerthu
- perchnogion/cyfranwyr camau gweithredu: Y Fforwm Manwerthu/Llywodraeth Cymru. Mae’r cynllun gweithredu yn cynnwys astudiaethau achos o ymdrechion i ddatgarboneiddio gweithrediadau danfon nwyddau.

# 10
# Y Sector Bwyd a diod



Mae'r sector bwyd a diod yn bwysig iawn i economi Cymru. Yn 2019 amcangyfrifwyd bod y sector gweithgynhyrchu bwyd a diod yn cyflogi mwy na 24,000 o bobl a bod ganddo drosiant o fwy na £5 biliwn. Roedd y gadwyn cyflenwi bwyd a diod yn cyflogi bron i 230,000 o bobl ac roedd ganddi drosiant o fwy na £22 biliwn ar draws y sectorau arlwyo; manwerthu a chyfanwerthu; amaethyddiaeth a physgota; gweithgynhyrchu a phecynnu.

Bwyd a Diod Cymru mewn Niferoedd | Busnes Cymru – Bwyd a diod (llyw.cymru)

Yn 2021, lluniodd Bwyd a Diod Cymru y ddogfen 'Gwneud busnes gwell: Llawlyfr cynaliadwyedd ar gyfer cynhyrchwyr bwyd a diod.' GWNEUD BUSNES_GWELL.v2.pdf (food-drink.wales). Mae'n cyfeirio at nifer o ymyriadau – o reoli'r defnydd o ynni i leihau gwastraff bwyd.

Yn 2021, cyhoeddodd Busnes Cymru weledigaeth strategol ar gyfer y diwydiant bwyd a diod: Gweledigaeth ar gyfer y diwydiant Bwyd a Diod o 2021 | Busnes Cymru – Bwyd a diod (llyw.cymru) – Cynllun Gweithredu Bwyd a Diod_CYM.pdf (llyw.cymru)

Comisiynwyd y gwaith er mwyn cael data gwell am effeithiau carbon y sector bwyd a diod.

Gweler pennod 18, Bioamrywiaeth, am y pecyn cymorth datgoedwigo rhad ac am ddim i fusnesau, sy'n helpu busnesau i nodi a lleihau'r risg o ddatgoedwigo trofannol sy'n gysylltiedig â bwyd, a'r effeithiau cymdeithasol yn eu cadwyni cyflenwi.

# 11
# Twristiaeth a lletygarwch

## Y sector twristiaeth

- Gwariodd ymwelwyr yng Nghymru £4.7 biliwn yn 2022. Gwariwyd £2.4 biliwn o'r ffigur hwn ar ymweliadau un dydd, £1.9 biliwn ar deithiau domestig dros nos a £0.4 biliwn gan ymwelwyr o'r tu allan i'r wlad.
- Yn 2022, roedd diwydiannau twristiaeth yn cyfrif am 11.8% o gyflogaeth yng Nghymru, gan gyflogi 159,000 o bobl.
- Roedd diwydiannau sy'n gysylltiedig â thwristiaeth yn cyfrif am 5.1% o'r gwerth ychwanegol gros yng Nghymru yn 2022 (£3.8 biliwn).

Proffil Economi Ymwelwyr Cymru: 2021 | LLYW.CYMRU

Mae cynaliadwyedd wrth galon ein strategaeth 'Croeso i Gymru'. Mae'r strategaeth dwristiaeth, a gyhoeddwyd yn 2020, yn nodi sut, yng Nghymru, yr ydym am ddatblygu twristiaeth sy'n gwneud daioni – hynny yw, twristiaeth sy'n cefnogi ein cymunedau ac yn gofalu am ein tir ac yn ei warchod, ac sydd yr un mor fuddiol i ymwelwyr ag yr ydyw i ddinasyddion, gan ddarparu swyddi cynaliadwy drwy gydol y flwyddyn ac ym mhob rhan o'n gwlad.

Mae'r ymagwedd hon at gyflawni cynaliadwy yn canolbwyntio ar dri pheth:

- **Tymoroldeb –** ail-osod Cymru fel cenedl y gallwch ymweld â hi drwy gydol y flwyddyn.
- **Dosbarthiad –** dosbarthu twristiaeth ar draws y wlad drwy gyflwyno pobl i leoedd newydd sydd y tu hwnt i'r mannau adnabyddus.
- **Gwariant –** cynyddu faint o arian y mae ymwelwyr yn ei wario tra'u bod yma er budd ein heconomïau lleol.

Rydym yn hyrwyddo twristiaeth gyfrifol a chynaliadwy ym mhopeth a wnawn – drwy negeseuon cyfrifol, gweithgareddau hyrwyddo a chynlluniau buddsoddi cyfalaf.

## Y Pethau Pwysig

Mae'r gronfa £5 miliwn ar gyfer 2023–25 yn helpu i gyflawni gwelliannau seilwaith ar raddfa fach mewn lleoliadau twristiaeth strategol bwysig ledled Cymru. Un o'r pedwar maes allweddol a gefnogir yw datblygu cyrchfannau sy'n gynaliadwy o ran yr amgylchedd – ariannu gwelliannau i'r seilwaith er mwyn helpu i leihau ôl troed carbon cyrchfan.

Roedd cynllun eleni yn agored i awdurdodau lleol ac awdurdodau Parciau Cenedlaethol a bu 29 o brosiectau yn llwyddiannus ledled Cymru. Maent yn cynnwys gwaith ar lwybrau beicio a gosod pwyntiau gwefru cerbydau trydan.

## Cronfa Buddsoddi mewn Twristiaeth Cymru

Mae gennym hefyd Gronfa Buddsoddi mewn Twristiaeth Cymru gwerth £50 miliwn, sy'n ein galluogi i ariannu buddsoddiad cyfalaf mewn prosiectau sy'n tyfu'r sector ac sy'n cael effaith gadarnhaol ar economi Cymru.

Mae pob busnes a gefnogir gan Gronfa Buddsoddi mewn Twristiaeth Cymru yn ymrwymo i'r Contract Economaidd. Mae datgarboneiddio yn un o bedwar piler y Contract Economaidd – rhaid i fusnes ddangos tystiolaeth o sut y bydd y prosiect a'i gynlluniau gweithredol yn helpu i leihau ei ôl troed carbon. Mae'r addewidion datblygu hyn (ee paneli solar, boeleri biomas, dim gwastraff, pwyntiau gwefru cerbydau trydan, defnyddio cyflenwyr lleol) gyda cherrig milltir cyraeddadwy yn cael eu monitro drwy gydol y cyfnod cydymffurfio.

Gall busnesau twristiaeth a lletygarwch yng Nghymru hefyd gael cymorth ehangach gan Busnes Cymru.

Roedd busnesau micro, bach a chanolig cymwys yn y sectorau manwerthu a lletygarwch yn gallu cael gafael ar arian drwy'r Gronfa Paratoi at y Dyfodol: **businesswales.gov.wales/cy/cronfa-paratoiaty-dyfodol**

# 12
# Y sector cyhoeddus

Er nad yw cyrff y sector cyhoeddus yn fusnesau bach a chanolig, maent yn rhyngweithio â llawer ohonynt ac yn rhannu cadwyni cyflenwi â hwy. Mae yna lawer o wersi i'w dysgu o ymdrechion y mae'r sector cyhoeddus yn eu gwneud (ac wedi'u gwneud) i ddatgarboneiddio ei adeiladau a'i gadwyni cyflenwi.

Adroddiad ar Allyriadau Carbon Sector Cyhoeddus Cymru 2023: **www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2024-04/allyriadau-carbon-sector-cyhoeddus-cymru-2023-adroddiad-sero-net.pdf**

Yn 2021, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru 'Statws carbon sero-net erbyn 2030'. Roedd hwn yn drywydd ar gyfer datgarboneiddio ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru': **Statws carbon sero-net erbyn 2030: Trywydd ar gyfer datgarboneiddio ar draws sector cyhoeddus Cymru (llyw.cymru)**.

Mae'n cynnwys y dyheadau canlynol:

- bod gan bob adeilad cyhoeddus gwres carbon isel erbyn 2030 a'i fod yn cynhyrchu ei drydan ei hun os yw hynny'n ymarferol
- bod yr holl geir a cherbydau nwyddau ysgafn newydd yn fflyd y sector cyhoeddus yn rhai allyriadau isel iawn erbyn 2025.


Mae Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru yn darparu cymorth technegol a chaffael i gyrff y sector cyhoeddus ar draws ystod o bynciau sy'n cynnwys gwresogi, goleuo a mesurau effeithlonrwydd ynni a datgarboneiddio eraill, er mwyn cefnogi'r uchelgais o sector cyhoeddus sero, ar fydd, ar y cyd, yn net erbyn 2030: **Y gwasanaeth ynni (ar gyfer grwpiau'r sector cyhoeddus a grwpiau cymunedol) | LLYW.CYMRU**. Cefnogir y gwasanaeth ynni gan Local Partnerships: **Local Partnerships**.

Mae Rhaglen Gyllido Cymru yn darparu benthyciadau llog isel ar gyfer mesurau effeithlonrwydd ynni a datgarboneiddio yn y sector cyhoeddus. Gellir ad-dalu benthyciadau dros 10 mlynedd o'r arbedion ynni a grëwyd.

Yn ogystal â Rhaglen Gyllido Cymru, gall awdurdodau lleol hefyd ddefnyddio'r Grant Gwres Carbon Isel i osod offer fel pympiau gwres – sy'n cyflawni arbedion cyfyngedig ar hyn o bryd – i ad-dalu benthyciadau.

Gall y sector addysg bellach yng Nghymru hefyd ddefnyddio cynllun benthyciadau llog isel 'Digarbon' ar gyfer ystod amrywiol o fesurau datgarboneiddio. Gellir ad-dalu'r benthyciadau penodedig hyn dros 25 mlynedd fel y gellir mabwysiadu agwedd fwy hirdymor. Ymdrinnir â'r ystod o gymorth sydd ar gael mewn adroddiadau blynyddol: **www.llyw.cymru/y-gwasanaeth-ynni-adroddiadau-blynyddol**

# 13
# Trafnidiaeth



Fel y crybwyllwydn gynt, mae 'Trafnidiaeth' yn un o fesyddd gweithgarwch busnesau bach a chanolig sy'n cael effaith fawr o ran carbon un o fesyddd gweithgarwch ac mae potensial i ymdrechion i ddatgarboneiddio gweithgareddau trafnidiaeth wneud cyfraniad cyffredinol sylweddol at ddatgarboneiddio busnesau bach a chanolig a'u cadwyni cyflenwi.

Yn y gorffennol, mae symud nwyddau a phobl fel rhan o weithgareddau busnes wedi bod yn seiliedig i raddau helaeth ar danwyddau ffosil. Wrth i fusnesau bach a chanolig a'r rhai yn eu cadwyni cyflenwi geisio datgarboneiddio gweithrediadau trafnidiaeth, gallant ystyried cerbydau trydan a hydrogen.

## Effaith mesurau ar allyriadau

| Enw'r mesur | Gostyngiad mewn allyriadau (ktCO$_2$e)/blwyddyn |
|---|---|
| Mesurau lleihau trafnidiaeth | 80.5 |
| Newid tanwydd, cerbydau trydan | 988.4 |

Mae'r effeithiau lleihau allyriadau posibl sy'n deillio o leihau trafnidiaeth a newid i gerbydau trydan yn cyfateb i bron i filiwn o dunelli o CO$_2$e y flwyddyn.

Mae mabwysiadu'r cerbydau hyn yn eang yn dibynnu nid yn unig ar argaeledd cerbydau fforddiadwy sy'n addas ar gyfer gofynion busnesau, ond hefyd ar seilwaith ail-lenwi â thanwydd, boed hynny o storfeydd hydrogen neu bwyntiau gwefru cerbydau trydan.

Ym mis Hydref 2021, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Strategaeth Gwefru Cerbydau Trydan, gan nodi ei chynlluniau ar gyfer gwefru ceir a faniau trydan yng Nghymru: **Strategaeth gwefru cerbydau trydan ar gyfer Cymru: cynllun gweithredu [HTML] | LLYW.CYMRU**

Mae'r strategaeth yn cyd-fynd â gweledigaeth uchelgeisiol ar gyfer gwefru cerbydau yng Nghymru a sefydlwyd yn 'Llwybr Newydd: Strategaeth drafnidiaeth Cymru 2021': **Llwybr Newydd: Strategaeth Drafnidiaeth Cymru 2021 | LLYW.CYMRU**

Mae grantiau ar gael i landlordiaid eiddo masnachol ar gyfer pwyntiau gwefru cerbydau trydan: **Grantiau i landlordiaid ar gyfer pwyntiau gwefru cerbydau trydan a seilwaith: Beth allwch chi ei gael – GOV.UK (www.gov.uk)**

Mae'r grant i staff a fflydoedd ar gyfer seilwaith cerbydau trydan ar agor i geisiadau tan fis Mawrth 2025: **Grant seilwaith cerbydau trydan ar gyfer staff a fflydoedd – GOV-UK Dod o hyd i grant (find-government-grants.service.gov.uk)**

Gall eiddo masnachol osod pwyntiau gwefru ar gyfer cerbydau trydan mewn depos ac iardiau. Mae hefyd yn bosibl gwefru cerbydau trydan ar y ffordd gerllaw eiddo masnachol. Dylai busnesau sydd â diddordeb mewn gwneud hyn gysylltu â'u hawdurdod lleol ynghylch gosod ceblau gwefru ar draws palmentydd.

# 14
# Effeithlonrwydd adnoddau a'r economi gylchol



Mae sawl ffordd y gall busnesau bach a chanolig leihau allyriadau carbon drwy ddefnyddio adnoddau'n fwy effeithlon a lleihau gwastraff. Mae'r rhain yn cynnwys gweithgareddau sy'n gyson â strategaeth 'Mwy nag Ailgylchu: Strategaeth i wneud economi gylchol Cymru yn realiti', ac a hyrwyddir ganddi: **Mwy nag ailgylchu | LLYW.CYMRU.** Cymru yw'r ail wlad orau yn y byd am ailgylchu, ychydig y tu ôl i Awstria. Ei busnesau a'i chymunedau sy'n gyfrifol am hynny.

- Ymrwymo i Addewid Twf Gwyrdd Busnes Cymru er mwyn deall yn well sut i gymhwyso egwyddorion yr economi gylchol.
- Pan fo'n ymarferol, lleihau faint o adnoddau a ddefnyddir, gan gynnwys adnoddau materol, dŵr a bwyd, drwy gamau atal gwastraff a dylunio gwell.
- Defnyddio adnoddau sy'n cynnwys llai o garbon pan fo hynny'n bosibl, gan gynnwys defnyddio deunyddiau wedi'u hailgylchu yn lle deunyddiau crai.
- Sicrhau bod unrhyw wastraff a gynhyrchir yn cael ei ailddefnyddio neu ei ailgylchu.

O dan y **Rheoliadau Ailgylchu yn y Gweithle**, mae angen i bob busnes bach a chanolig wahanu ei wastraff ar gyfer ei ailgylchu. Y nod yw adeiladu ar lwyddiant ailgylchu o gartrefi a sicrhau cyfraddau ailgylchu uchel ar draws gweithleoedd hefyd. Mae'r canlynol yn fanteision sy'n deillio o gynyddu cyfraddau ailgylchu:

- cynyddu swm ac ansawdd yr hyn a ailgylchir y gellir ei ddefnyddio wedyn gan gynhyrchwyr yng Nghymru cefnogi gweithleoedd i leihau eu gwastraff
- lleihau allyriadau carbon; a
- helpu'r economi i greu Cymru wyrddach.

**Opsiynau i gynyddu ailgylchu yn y gweithle yng Nghymru: astudiaeth effaith reoleiddiol | LLYW.CYMRU**

**Newidiadau i ailgylchu yn y gweithle: canllawiau ar gyfer gweithleoedd | LLYW.CYMRU**

**Casglu deunyddiau gwastraff ar wahân ar gyfer ailgylchu: cod ymarfer Cymru | LLYW.CYMRU**

## 14.1 Cronfa'r Economi Gylchol

Mae Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi £10 miliwn yn rownd nesaf Cronfa Arloesi'r Economi Gylchol, yn ystod 2023/24 a 2024/25: **Cyllid ar gyfer yr Economi Gylchol /Arloesi (llyw-cymru)**

Yn unol â strategaeth Sero Net Cymru, a strategaeth economi gylchol Llywodraeth Cymru 'Mwy nag ailgylchu', bydd y cyllid hwn yn cefnogi buddsoddiadau mewn prosesau gweithgynhyrchu i gynyddu'r defnydd o gynnwys sydd wedi'i ailgylchu a'i ailddefnyddio mewn cynhyrchion neu gydrannau, neu i ymestyn oes cynhyrchion a deunyddiau. Gall busnesau wneud cais am hyd at £200,000 o gyllid i gefnogi'r gweithgaredd hwn. Mae manylion ar gael drwy'r ddolen.

# 15
# Pontio Teg i economi sero net

Un o brif nodau Llywodraeth Cymru yw datgarboneiddio'r sector busnes yng Nghymru drwy bontio teg. Mae sicrhau pontio teg yn golygu sicrhau nad oes neb yn cael ei adael ar ôl wrth inni symud tuag at Gymru lanach, gryfach a thecach.

Mae ein Dogfen Ymgynghori ar y Fframwaith Pontio Teg yn pwysleisio bod cyflawni pontio teg yn golygu bod rhaid inni gydnabod heriau technolegol, cymdeithasol ac economaidd datgarboneiddio, a cheisio nodi ffyrdd y gallwn unioni'r anghydraddoldebau presennol ar draws cymunedau a gweithlu Cymru ac atal rhai newydd rhag ffurfio.

Er mwyn pontio'n deg, rhaid cydnabod yr heriau technolegol, cymdeithasol ac economaidd sy'n gysylltiedig â datgarboneiddio, a cheisio nodi ffyrdd y gallwn unioni'r anghydraddoldebau presennol ar draws cymunedau, busnesau a gweithlu Cymru ac atal rhai newydd rhag ffurfio. Mae hefyd yn edrych ar y ffordd y gall busnesau yng Nghymru gael mynediad teg at gyfleoedd a gyflwynir gan y cyfnod pontio.

Mae'r ymateb i'r ymgynghoriad ar y Fframwaith Pontio Teg ar gael yn: Crynodeb o'r Fframwaith Pontio | LLYW.CYMRU, gan gynnwys pecyn cymorth y gall cyflogwyr ei ddefnyddio i greu partneriaethau cryf gydag undebau, y gweithlu a chymunedau lleol i helpu i gynllunio'r cyfnod pontio ac adeiladu'r wybodaeth a'r gallu sydd eu hangen.

Rydym hefyd yn anelu at weithio gyda gwasanaethau chymorth busnes a llunio astudiaethau achos a chanllawiau pellach i gynorthwyo busnesau a rhanddeiliaid eraill i gynllunio ar gyfer pontio'n deg i sero net.

## Busnesau a Phontio Teg

Mae angen trawsnewid yr economi er mwyn mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd yn effeithiol. Mae'r newid hwn eisoes yn digwydd ac mae angen i fusnesau sydd am fanteisio ar y cyfleoedd masnachol sy'n deillio ohono allu newid. Mae pontio teg yn gwneud hyn yn bosibl drwy gynnwys gweithwyr a'u hundebau yn y broses newid. Mae hefyd yn sicrhau bod gan gwmni, ei weithlu, a chymunedau lleol y sgiliau, y buddsoddiad a'r gallu sydd eu hangen arnynt er mwyn gwrthsefyll y newid yn yr hinsawdd gwneud a newidiadau masnachol. Gall cynllunio ar gyfer pontio'n deg i sero net ganiatáu i fusnesau reoli a gwneud yr gorau o'r effeithiau gweithredol a'r effeithiau ar eu henw da a ddaw yn sgil torri allyriadau a chynyddu cynhyrchiant adnoddau. Gweler hefyd yr adrannau ar Sgiliau Sero Net a Phartneriaethau Cymdeithasol a Gwaith Teg.

# 16
# Sgiliau a hyfforddiant



Ym mis Mawrth 2022 cyhoeddwyd cynllun ar gyfer cyflogadwyedd a sgiliau: **Cymru gryfach, decach a gwyrddach: cynllun cyflogadwyedd a sgiliau: crynodeb [HTML] | LLYW.CYMRU**.

Mae'r Cynllun gweithredu sgiliau sero net a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2023 yn amlinellu'r sefyllfa bresennol yng Nghymru o ran sgiliau sero net, yn erbyn yr wyth sector allyriadau a nodir yng Nghynllun Sero Net Cymru: **Cynllun gweithredu sgiliau sero net | LLYW.CYMRU**. Mae Cynllun Sero Net Cymru hefyd yn culhau'r diffiniad er mwyn cael dealltwriaeth gyffredin o'r swyddi a'r sgiliau y bydd eu hangen. Yn y cyd-destun hwn, mae Llywodraeth Cymru yn parhau i fod yn ymrwymedig i uwchsgilio'r gweithlu â sgiliau sero net drwy fuddsoddi mewn pobl, sgiliau, a thalent, er mwyn gyrru Cymru tuag at economi wyrddach.

Mae'r dull cyffredinol o ddatblygu sgiliau wedi'i nodi mewn datganiad polisi a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2024: **datganiad-polisi-ar-sgiliau.pdf (gov.wales)**.

Mae crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar 'Sgiliau sector sero net' a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2023 i'w weld yn: **Sgiliau sector sero net | LLYW.CYMRU**. Cyfeiriwch at **Sgiliau sero net | Is-bwnc | LLYW.CYMRU** am ddiweddariadau pellach ar y camau a gymerwyd mewn ymateb i'r ymgynghoriad.

Mae'r galw am sgiliau sero net yn tyfu ledled Cymru. Mae'r rhain yn sgiliau sydd eu hangen i helpu i gefnogi ein taith i sero net erbyn 2050. Mae ein heconomi yn newid, ac mae angen i ni i gyd addasu'r ffordd yr ydym yn gweithio i gyflawni'r newidiadau hyn – felly bydd buddsoddi mewn sgiliau yn ffactor allweddol wrth gyflawni nodau a rennir.

Mae sawl rhaglen sy'n cael ei hariannu'n llawn neu ar y cyd yn cynnig hyfforddiant a chymorth sgiliau naill ai i fusnes yn uniongyrchol neu i'w weithwyr/i bobl sy'n chwilio am waith.
Mae'r rhain wedi'u nodi yn: **Sgiliau Sero Net | Porth Sgiliau Busnes Cymru (llyw.cymru)**.

# 17

## Partneriaeth gymdeithasol, caffael cyhoeddus a gwaith teg



Mae gwaith teg a phartneriaeth gymdeithasol yn hanfodol ar gyfer cyflawni proses lwyddiannus a chynaliadwy o ddatgarboneiddio busnesau. Yn wir, mae'n amhosibl datgarboneiddio busnesau heb y gweithlu. Yn yr un modd â chydag unrhyw gyfnod pontio arwyddocaol, mae potensial i'r costau a'r buddion gael eu rhannu mewn ffordd anwastad ac i weithwyr gael eu heffeithio'n negyddol. Drwy flaenoriaethu gwaith teg a thrwy gofleidio partneriaeth gymdeithasol, gallwn sicrhau cyfnod pontio mwy teg a chynhwysol wrth inni ddatgarboneiddio ein heconomi a'n busnesau.

Bydd gwreiddio gwaith teg yn rhan o bontio teg yn helpu i ddiogelu llesiant gweithwyr a sicrwydd swyddi, ac yn annog dysgu a datblygu'r gweithlu, sy'n hanfodol i'r gwydnwch y bydd ei angen ar fusnesau. At hynny, bydd cynnwys gweithwyr ac undebau llafur mewn partneriaeth gymdeithasol a'u cynnwys mewn penderfyniadau sy'n effeithio ar y gweithlu yn meithrin lefelau uwch o ymddiriedaeth a chydweithrediad ac, yn y pen draw, yn hwyluso canlyniadau datgarboneiddio mwy effeithiol.

Mae Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023 yn cynnwys dyletswyddau cyffredinol ar awdurdodau contractio yng Nghymru i ddefnyddio gweithgareddau masnachol i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol eu hardaloedd drwy ymgymryd â chaffael cyhoeddus mewn ffordd sy'n gymdeithasol gyfrifol, yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy.

Mae'n cyflwyno dyletswyddau penodol ar awdurdodau contractio i baratoi strategaethau caffael ac i osod a chyhoeddi amcanion, ac yn cyflwyno gofynion newydd ar gyfer "contractau rhagnodedig" (contractau adeiladu mawr a chontractau gwasanaethau ar gontract allanol). Yn benodol, bydd angen i gontractau adeiladu mawr (y rhai sydd â gwerth dros £2 filiwn) gynnwys cymalau i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol yn y categorïau a ganlyn:

- Taliadau
- Cyflogaeth
- Cydymffurfio
- Hyfforddiant
- Is-gontractio
- Yr amgylchedd.

Yn fwy penodol, rhaid i'r cymalau o dan y categori "Yr amgylchedd":

> **... ei gwneud yn ofynnol rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, defnyddio deunyddiau cynaliadwy, gwrthsefyll effaith y newid yn yr hinsawdd, lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr, a gwella'r amgylchedd naturiol a bioamrywiaeth.**

Rhaid i'r cymalau hyn lifo drwy'r **cadwyni cyflenwi cyfan** ar gyfer contractau adeiladu mawr, a rhaid i awdurdodau contractio sicrhau bod y broses o'u gweithredu yn cael ei monitro. Yn ogystal â hyn, mae'r ddyletswydd cynllunio cyffredinol a grybwyllir uchod a'r gofynion penodol ar gyfer contractau rhagnodedig fel y rhain yn sicrhau bod sylw'n caael ei roi i'r dyfodol ac, yn hollbwysig, fod **adroddiadau blynyddol** yn cael eu cyflwyno ar yr amcanion hyn.

Mae swyddogion Llywodraeth Cymru wrthi ar hyn o bryd yn gweithio gyda'r sector cyhoeddus yng Nghymru, partneriaid cymdeithasol a'r sector preifat i sefydlu set o fesurau ar gyfer y drefn adrodd hon a fydd, yn benodol, yn cynnwys **lleihau** a **mesur carbon**.

Gall busnesau gael rhagor o wybodaeth am waith teg a chaffael drwy glicio ar y dolenni isod.

Canllaw i waith teg | LLYW.CYMRU

Cyflogaeth foesegol mewn cadwyni cyflenwi: cod ymarfer

Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru)

# 18
# Bioamrywiaeth

Mae gwarchod a hyrwyddo bioamrywiaeth yn flaenoriaethau pwysig. Mae yna lawer o fygythiadau i fioamrywiaeth, gan gynnwys y newid yn yr hinsawdd. Drwy leihau eu heffeithiau carbon mae busnesau yn gwneud cyfraniad anuniongyrchol at warchod bioamrywiaeth.

Mae Llywodraeth Cymru yn ceisio hyrwyddo datgarboneiddio, a gwella ansawdd aer a bioamrywiaeth drwy roi ei pholisïau economaidd ar waith. Y newid yn yr hinsawdd yw un o'r prif fygythiadau i fioamrywiaeth yn fyd-eang, ac felly bydd ymdrechion i ddatgarboneiddio economi Cymru yn cyfrannu at warchod bioamrywiaeth.

Gall busnesau bach a chanolig helpu i warchod neu wella bioamrywiaeth leol gan ddibynnu ar amgylchiadau unigol, drwy:

- blannu blodau gwyllt o amgylch adeiladau
- plannu coed a llwyni
- creu pyllau
- gosod blychau adar ac ystlumod ar adeiladau
- defnyddio 'briciau gwenyn' ac o bosibl cynnal gwenynfeydd.

Gall busnesau bach a chanolig ddefnyddio prosesau caffael nwyddau a deunyddiau, a defnyddio cadwyni cyflenwi i helpu i gefnogi bioamrywiaeth fyd-eang.

Mae'r elusen newid hinsawdd, Maint Cymru, yn gweithio dramor gyda phobloedd cynhenid a chymunedau lleol mewn coedwig oedd amddiffyn coedwigoedd trofannol, ac yma yng Nghymru mae'n helpu busnesau, ysgolion a'r sector cyhoeddus i leihau eu hôl troed o ran nwyddau sy'n peri risg i goedwigoedd trofannol. Mae 73% o'r holl ddatgoedwigo trofannol yn digwydd oherwydd y nwyddau hyn, sy'n cynnwys cig eidion o Dde America, soi (a ddefnyddir mewn porthiant da byw), olew palmwydd, coffi, coco, pren, papur a mwydion. Yn 2022, lluniodd Maint Cymru **Becyn Cymorth Busnesau Dim Datgoedwigo** i helpu busnesau i nodi risgiau i goedwigoedd yn eu cadwyni cyflenwi ac i gymryd camau i leihau eu hôl troed datgoedwigo dramor. Mae hyn yn cynnwys cyfres o fesurau, megis ymgysylltu â chyflenwyr, ffynonellau moesegol, lleihau defnydd a gwastraff bwyd, yn ogystal â chyllid moesegol.

**https://sizeofwales.org.uk/wp-content/uploads/2024/01/SizeOfWales-DeforestationToolkit-Welsh-Jan2023.pdf**

Cofrestrwch yma i ddod yn Hyrwyddwr Busnes Dim Datgoedwigo **https://sizeofwales.org.uk/cy/busnes-dim-datgoedwigo/** i gael arweiniad a chyngor arbenigol am ddim gan dîm Maint Cymru. Byddwch yn ymuno â mudiad sy'n tyfu o fusnesau Cymreig sy'n gymdeithasol gyfrifol ac sydd ar flaen y gad o ran amddiffyn coedwigoedd trofannol, pobl a natur.

# 19
# Cymorth Busnes Llywodraeth Cymru



## 19.1 Busnes Cymru

Mae gwasanaeth Busnes Cymru yn cydnabod ac yn cefnogi ymrwymiad Llywodraeth Cymru i sero net ac mae wedi ymgorffori ystyriaethau datgarboneiddio a newid hinsawdd wrth ddarparu gwasanaethau, fel eu bod yn ganolog i drafodaethau â busnesau ochr yn ochr â gwaith teg a chynhyrchiant.

Fel rhan o'n hymrwymiad i Sero Net Cymru, nod Busnes Cymru yw adeiladu cwmnïau cryf a chydnerth, ac mae'n gweithio gyda busnesau yng Nghymru, yn enwedig busnesau bach a chanolig, i ymgorffori effeithlonrwydd ynni, effeithlonrwydd adnoddau a thechnolegau carbon isel newydd yn eu gweithleoedd a'u cyfleusterau gweithgynhyrchu a datblygu ffyrdd newydd o weithio.

Mae Busnes Cymru yn cynnig ystod eang o gyngor a chymorth ar bolisïau ac arferion gwyrdd ac effeithlonrwydd adnoddau, yn ogystal â gweithdai. Mae cymorth yn cynnwys cyngor i fusnesau ar newid tymor hwy gyda'n gilydd, ac ymwybyddiaeth o gymorth ariannol i ddatgarboneiddio ynghyd â chyngor ar ddelio ag effeithiau economaidd yr argyfwng ynni a'r effeithiau ar yr amgylchedd a'r newid yn yr hinsawdd yn y dyfodol.

Rhoddir cyngor a gwybodaeth i fusnesau newydd a busnesau presennol am ddatgarboneiddio a sero net, ac fe'u cyfeirir at ffynonellau perthnasol er mwyn eu helpu i wella arferion a manteisio ar gyfleoedd newydd i dyfu. Mae cymorth ar gael i fusnesau drwy gyfuniad o gymorth busnes ar-lein, cymorth dros y ffôn, cymorth un-i-lawer a chymorth un-i-un sydd wedi'u teilwra yn unol ag angen y cleient ac y gellir ei gyrchu'n ddigidol drwy businesswales.gov.wales/cy, sianeli'r cyfryngau cymdeithasol a llinell gymorth 03000 603000.

Mae sianeli digidol Busnes Cymru yn chwarae rhan allweddol mewn darparu gwybodaeth am ffynonellau o gymorth a chamau gweithredu sydd eu hangen ar fusnesau i fynd i'r afael ag effaith newidiadau polisi neu ddeddfwriaethol newydd, ar lefel Cymru neu'r DU. Mae adnoddau digidol ar-alw ar gael ar wefan Busnes Cymru a'r System Cymorth Busnes Ar-lein (BOSS). Mae gwefan Busnes Cymru a sianeli'r cyfryngau cymdeithasol yn rhannu negeseuon yn rheolaidd ac yn cyhoeddi amrywiaeth o gynnwys sy'n ymwneud ag effeithlonrwydd adnoddau a'r newid yn yr hinsawdd, gan gynnwys digwyddiadau, cyllid a chyngor cymorth busnes.

Er mwyn cael cymorth ymgynghorol, defnyddir dull diagnostig i bennu'r cymorth priodol ar gyfer pob busnes. Mae hyn yn cynnwys defnyddio offer penodol i fesur y busnes presennol ac adrodd ar newidiadau, cyngor cyffredinol a chymorth gan gynghorwyr, yn ogystal â'r ecosystem ehangach er mwyn defnyddio'r arbenigedd yn y sector datgarboneiddio. Yn ogystal, mae gwasanaeth rheoli perthnasoedd pwrpasol ac arbenigol ar gael i gleientiaid cymwys. Mae cyngor un-i-un yn cynnwys cyngor ar effeithlonrwydd ynni, rheoli gwastraff, atal llygredd, materion cyfreithiol a thrwyddedau, systemau rheoli amgylcheddol a ffynonellau cyllid.

Mae Cynghorwyr **Datgarboneiddio** arbenigol yn darparu gwybodaeth ac arbenigedd sy'n cyd-fynd ag ymgorffori effeithlonrwydd ynni ac adnoddau a thechnolegau carbon isel newydd. Maent yn cefnogi busnesau i fabwysiadu neu wella strategaethau amgylcheddol, ac yn gweithio gyda busnesau tuag at greu busnes cydnerth sy'n defnyddio adnoddau mewn ffordd effeithlon. Mae cynghorwyr yn darparu amrywiaeth o gyngor megis cyngor ar ddefnyddio llai o ddeunyddiau crai er mwyn lleihau'r risg o brinder deunyddiau, ysgogi arloesedd a chydnerthedd, a helpu busnesau i gyrraedd marchnadoedd newydd. Maent hefyd yn helpu busnesau i ystyried ffyrdd effeithlon o weithio a newidiadau hirdymor i'w rhoi ar waith yn eu busnesau.

Gall cynghorwyr roi cyngor ar ystyriaethau cyfreithiol a chyllid posibl neu gefnogi mentrau sy'n galluogi buddsoddiad mewn datgarboneiddio. Maent hefyd yn codi ymwybyddiaeth o unrhyw reoliadau newydd a allai effeithio ar fusnesau ac yn gweithio gyda chynghorwyr sgiliau arbenigol fel rhan o Sgiliau Sero Net. Mae cynghorwyr Busnes Cymru yn gweithio gyda thua 1,400 o fusnesau'r flwyddyn i gyflwyno neu wella polisïau ac arferion lleihau carbon.

Mae'r **Addewid Twf Gwyrdd** yn rhan bwysig o'r cymorth cynaliadwyedd arbenigol sydd ar gael drwy Busnes Cymru, ac mae'n agored i bob busnes bach a chanolig yng Nghymru ni waeth beth fo'u sector diwydiant. Mae'n darparu ffordd ymarferol i fusnesau ddangos eu heffaith gadarnhaol ar y bobl a'r lleoedd o'u cwmpas ac i ymuno â chymuned gynyddol o sefydliadau blaengar. Drwy lofnodi'r Addewid Twf Gwyrdd mae pob busnes yn ymrwymo i un neu ragor o gamau gweithredu i'w helpu i leihau effaith neu sicrhau perfformiad cynaliadwy. Rhoddir mynediad i fusnesau i becyn cymorth marchnata hefyd sydd wedi'i ddylunio'n benodol i ddarparu gwybodaeth ymarferol, canllawiau a logos i helpu i hyrwyddo'r camau y maent wedi'u cymryd i ddatgarboneiddio a dod yn fwy cynaliadwy.

Mae cynghorwyr yn gweithio gyda busnesau twf uchel i gwblhau cyfrifiannell carbon i feincnodi eu gweithgareddau presennol a galluogi busnesau i greu cynlluniau lleihau carbon a chymryd y camau angenrheidiol i fesur a lleihau eu hôl troed carbon. Ochr yn ochr â'r Contract Economaidd ar gyfer busnesau bach a chanolig sydd â pherthynas a reolir, mae cynghorwyr yn cefnogi busnesau i ymrwymo i'r Addewid Twf Gwyrdd, sy'n helpu busnesau i wireddu'r manteision ariannol, amgylcheddol a chymdeithasol o weithredu mewn ffordd fwy effeithlon, gan gymryd camau ymarferol i leihau ac ailddefnyddio, dod o hyd i gyflenwyr cyfrifol, arloesi ac ennill mwy o fusnes.

Mae cymorth datgarboneiddio arbenigol ar gael i fusnesau twf uchel fel rhan o Raglen Cyflymu Twf Busnes Cymru. Mae hyn yn cynnwys y Cyflymydd Sero Net, sy'n rhaglen cymorth busnes hybrid sy'n cyfuno mesurau lleihau allyriadau ac arloesi/marchnata ac yn cynnwys cyfuniad o weithgareddau rheoli cyfrifon, cymorth un-i-un arbenigol a digwyddiadau grŵp. Mae'r rhaglen yn cefnogi busnesau i osod llinell sylfaen a lleihau eu hallyriadau presennol,

ac yn darparu cymorth i leihau allyriadau a thyfu busnesau, yn ogystal â chael eu hachredu.

Mae **ymgyrch Gweledigaeth Werdd Busnes Cymru** yn helpu busnesau i wella'u gwybodaeth am effeithlonrwydd adnoddau a'u dealltwriaeth ohono. Mae'r ymgyrch yn annog busnesau i gymryd camau i liniaru eu heffaith ar y newid yn yr hinsawdd ac yn cefnogi uchelgais Llywodraeth Cymru i greu economi sero net. Mae'r ymgyrch yn darparu mynediad hawdd at gynnwys digidol a digwyddiadau rhyngweithiol ar-lein, gan gynnwys sesiynau arbenigol.

Mae **"Canllaw Cyflym ar Effeithlonrwydd Adnoddau a Chyfrifo Carbon"** hefyd ar gael ar wefan Busnes Cymru. Mae'r canllaw yn cyflwyno busnesau bach a chanolig i effeithlonrwydd adnoddau a chyfrifo carbon, ac yn darparu gwybodaeth am ystod o adnoddau sydd ar gael i'w cefnogi i ddod yn fusnes amgylcheddol ymwybodol ac i arbed arian. Mae'r wybodaeth yn cefnogi busnesau i fesur a monitro'r defnydd o adnoddau, mesur allyriadau carbon a chynllunio camau gweithredu.

Mae **parth cost gwneud busnes** ar wefan Busnes Cymru yn dwyn ynghyd y cynnwys presennol a'r offer sydd ar gael i gefnogi busnesau i leihau eu defnydd o adnoddau a lleihau eu costau. Mae'r parth hwn yn ganolbwynt ar gyfer unrhyw gyngor a chymorth i fusnesau yn y dyfodol.

Mae gan wefan Busnes Cymru hefyd **barth cyllid busnes** sy'n cynnig arweiniad a gwybodaeth arbenigol i helpu pobl i ganfod cyllid priodol yn ogystal â chanfyddwr cyllid.

# 20
# Ariannol



## 20.1 Ardrethi annomestig

Treth leol i helpu i dalu am wasanaethau lleol yw ardrethi annomestig, a elwir hefyd yn ardrethi busnes. Telir yr adrethi hyn ar y rhan fwyaf o eiddo annomestig.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno mesurau newydd i gefnogi'r defnydd o ynni adnewyddadwy mewn eiddo annomestig. Mae'r rhain yn cynnwys eithriad rhag asesiadau ardrethu ar gyfer yr eiddo y maent yn rhan ohonynt, ar gyfer offer a pheiriannau a ddefnyddir mewn cyfarpar ynni adnewyddadwy a mannau gwefru cerbydau trydan ar y safle. Mae'r mathau o dechnoleg ynni adnewyddadwy sydd wedi'u heithrio o brisiadau yn cynnwys y rhai a ddefnyddir i gynhyrchu, storio neu drawsyrru pŵer o ffynonellau biomas, biodanwydd, solar, dŵr, gwynt a geothermol. Daeth *Rheoliadau Prisio ar gyfer Ardrethu (Peiriannau a Pheirianwaith) (Cymru) (Diwygio) 2023*, sy'n sail i'r newidiadau, i rym ar 1 Ebrill 2024. Asiantaeth y Swyddfa Brisio sy'n gyfrifol am weithredu'r newidiadau.

O 1 Ebrill 2024, mae Llywodraeth Cymru hefyd yn darparu Rhyddhad Rhwydweithiau Gwresogi. Bwriad y rhyddhad yw cefnogi'r datblygiad a'r twf yn y sector hwn dros y degawd nesaf, drwy helpu i leihau'r rhwystrau ariannol rhag sefydlu rhwydweithiau. Bwriad hyn, yn ei dro, yw helpu i gefnogi'r newid o ddefnyddio tanwyddau ffosil, a datgarboneiddio gwres. Mae rhwydweithiau gwresogi yn cyflenwi ynni thermol o ffynhonnell ganolog i ddefnyddwyr drwy rwydwaith o bibellau. Mae Llywodraeth Cymru yn darparu rhyddhad llawn (100%) i hereditamentau annomestig a ddefnyddir yn gyfan gwbl neu'n bennaf fel rhwydwaith gwresogi sy'n darparu ynni thermol a gynhyrchir o ffynonellau carbon isel. Ceir esboniad manyloch ynghylch yr amodau cymhwyso yn y canllawiau, sydd ar gael ar wefan Busnes Cymru.

Mae ystod o gymorth ardrethi annomestig arall ar gael, gan gynnwys rhyddhad i fusnesau bach ac elusennau. Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar wefan Busnes Cymru.

## 20.2 Banc Datblygu Cymru – Trosolwg ar ddatgarboneiddio

Banc datblygu sy'n eiddo i Lywodraeth Cymru yw Banc Datblygu Cymru ac mae'n cynnig portffolio o gronfeydd i helpu busnesau yng Nghymru i gael y cyllid sydd ei angen arnynt i gychwyn, cryfhau a thyfu – gan gynnwys ar gyfer prosiectau datgarboneiddio. Fe all

ddarparu benthyciadau o £1,000 hyd at £10 miliwn, yn ogystal â chyllid mesanîn, a chyllid ecwiti; ac mae'n helpu busnesau i ddod o hyd i'r partner cyllid cywir iddynt fedru ysgogi cyllid preifat gyda'i gyllid ysgogi bwlch ei hun pan fo angen.

O dan gylch gorchwyl a bennwyd gan Weinidogion Cymru mae datgarboneiddio yn flaenoriaeth polisi i Fanc Datblygu Cymru gan fod y banc yn cefnogi busnesau i bontio tuag at sero net.

Mae'r llythyr cylch gwaith yn nodi'n glir y disgwyliad y bydd y banc yn bartner gweithredol yn y gwaith o ddatblygu'r economi carbon isel yng Nghymru ac yn ei gyfarwyddo nid yn unig i ymateb i ofynion y farchnad ond hefyd i fynd y tu hwnt i hyn a datblygu dulliau sy'n ymgorffori rhinweddau sero net mewn prosesau gwneud penderfyniadau.

Mae Banc Datblygu Cymru yn archwilio'r potensial i gynorthwyo busnesau sydd am fuddsoddi mewn seilwaith datgarboneiddio, gan gynnwys ynni adnewyddadwy Cyllid Busnes i Gwmnïau yng Nghymru – Banc Datblygu Cymru (https://developmentbank.wales)

Mae Cynllun Corfforaethol 2022-27 y banc yn dangos sut yr oedd wedi ymateb i'r cylch gwaith ac yn nodi sut y bydd yn cefnogi agenda datgarboneiddio Llywodraeth Cymru.

Cynllun Corfforaethol Banc Datblygu Cymru 2022–27.

## 20.3 Banc Datblygu Cymru – Y Cynllun Benthyciadau Busnes Gwyrdd

Er mwyn helpu busnesau i bontio i sero net, mae Banc Datblygu Cymru yn gweithredu cynnig 'buddsoddi i arbed' o'r enw'r Cynllun Benthyciadau Busnes Gwyrdd, a agorodd ar 1 Chwefror 2023.

Mae'r cynllun yn cynnig telerau ad-dalu hyblyg, cyfraddau llog deniadol a chymorth arall megis cymorth tuag at gostau ymgynghori i sicrhau bod busnesau'n hyderus bod y technolegau a'r atebion sy'n cael eu mabwysiadu yn addas ar eu cyfer.

Mae'r galw am y cynllun yn gryfach na'r disgwyl. Un o ddibenion y cynllun peilot yw helpu i ddeall natur y galw am fenthyciadau 'gwyrdd' o'r math hwn.

Mae'r cynllun peilot hwn yn darparu Benthyciadau Busnes Gwyrdd, a fydd yn galluogi busnesau yng Nghymru i fenthyca arian ar gyfraddau gostyngol ac ar delerau ad-dalu hyblyg, fel y gallant fuddsoddi mewn mesurau i leihau nid yn unig eu hôl troed carbon ond hefyd eu biliau ynni.

Ochr yn ochr â'r cynnig benthyciadau, bydd Busnes Cymru yn darparu gwasanaeth ymgynghori penodol ar ddatgarboneiddio i fusnesau.

Cynigir 'Benthyciadau Busnes Gwyrdd' rhwng £1,000 ac £1.5 filiwn (er y gellir ystyried prosiectau mwy o faint fesul achos). Drwy'r Cynllun Benthyciadau Busnes Gwyrdd, bydd y banc yn cynnig cyfalaf tymor estynedig gyda thelerau ad-dalu o hyd at 15 mlynedd, sy'n gysylltiedig â'r elw ar y prosiect.

Nid pwrpas cynllun Banc Datblygu Cymru yw cornelu'r farchnad, ond yn hytrach ei hategu a helpu'r busnesau hynny na allant gael mynediad at y cyllid sydd ei angen arnynt oddi wrth fenthycwyr prif ffrwd.

Mae'r prosiectau a allai gael eu cefnogi gan y benthyciadau yn cynnwys:

- buddsoddi mewn technoleg ynni adnewyddadwy fel paneli solar
- gwella ffabrig adeiladau ac effeithlonrwydd ynni o fewn yr adeilad
- uwchraddio systemau neu beiriannau i leihau'r defnydd o ynni
- gostyngiadau/gwelliannau o ran gwastraff a defnyddio dŵr.

Mae gan y banc adran ddatgarboneiddio bwrpasol ar ei wefan, sy'n cynnwys enghreifftiau o astudiaethau achos:

**Cynllun Benthyciadau Busnes Gwyrdd – Banc Datblygu Cymru (developmentbank.wales)**

Dyma enghreifftiau ychwanegol o astudiaethau achos lle mae'r banc yn cefnogi busnesau i ddatgarboneiddio drwy'r Cynllun Benthyciadau Busnes Gwyrdd a'i gronfeydd eraill:

**Ar y ffordd i sero net gyda Jaga Brothers – Banc Datblygu Cymru (developmentbank.wales)**

**Frog Bikes i leihau allyriadau carbon gyda buddsoddiad o £150,000 drwy gyfrwng y defnydd o alwminiwm wedi'i ailgylchu – Banc Datblygu Cymru (developmentbank.wales)**

**Siop gyffredinol yng Nghanolbarth Cymru yn lleihau ei defnydd o ynni diolch i gymorth gan Fanc Datblygu Cymru – Banc Datblygu Cymru**

## 20.4 Cronfa Dyfodol yr Economi

Mae Cronfa Dyfodol yr Economi yn un gronfa gyfunol ar gyfer buddsoddi mewn busnesau yng Nghymru. Rhaid i fuddsoddiadau cymwys fodloni amcanion y Contract Economaidd ac o leiaf un o'r galwadau i weithredu.

Mae yna bum galwad am weithredu, fel y disgrifir yn *Dyma Fusnes: Dyma Gymru*:

- Ymchwil a datblygu, awtomeiddio a digideiddio.
- Cyflogaeth o ansawdd uchel, datblygu sgiliau a gwaith teg.
- Allforio a masnachu.
- Arloesedd, entrepreneuriaeth a phencadlys oedd.
- Datgarboneiddio.

**This is Business. | Trade and Investment | Wales (tradeandinvest.wales)**

## 20.5 Y Gronfa Paratoi at y Dyfodol

Roedd busnesau micro, bach a chanolig cymwys yn y sectorau manwerthu, lletygarwch a hamdden yn gallu cael gafael ar arian drwy'r Gronfa Paratoi at y Dyfodol. Darparodd y gronfa:

- grant arian cyfatebol ar gyfer cyllid cyfalaf rhwng £5,000 a £10,000; ni fydd unrhyw gostau refeniw yn gymwys i gael cyllid
- mae'r grant i'w ddefnyddio'n gyfan gwbl yn ystod blwyddyn ariannol 2024–2025
- mae'r grant i'w fuddsoddi mewn mesurau i ddiogelu'r busnes at y dyfodol.

Hysbyswyd ymgeiswyr llwyddiannus erbyn 31 Awst 2024: **businesswales.gov.wales/cy/cronfa-paratoiaty-dyfodol**

## 20.6 Rhaglen Cefnogaeth Arloesedd Hyblyg SMART

Mae hon yn rhaglen gwerth £20 miliwn i fuddsoddi mewn ymchwil ac arloesedd blaengar a fydd yn gwella bywydau pobl. Mae'n cefnogi sefydliadau i arloesi, a bydd yn helpu i greu cynhyrchion a gwasanaethau newydd, gwella sgiliau, helpu i wella gallu datblygu ymchwil ac arloesi a'r gallu i gefnogi twf cynaliadwy.

Lansio cyllid newydd gwerth £30 miliwn i hybu arloesedd yng Nghymru | LLYW.CYMRU

Mae'r rhaglen hon yn cefnogi'r mesurau yn y strategaeth arloesi: Strategaeth arloesi i Gymru | LLYW.CYMRU

## 20.7 Innovate UK

Innovate UK yw asiantaeth arloesi'r DU Innovate UK – UKRI ac mae'n rhan o UK Research and Innovation UKRI, sef corff cyhoeddus anadrannol a noddir gan yr Adran Gwyddoniaeth, Arloesedd a Thechnoleg: Ein sefydliad – UKRI.

Mae Innovate UK yn cefnogi busnesau sy'n mabwysiadu dulliau newydd o gyflawni allyriadau sero net mewn systemau ynni, amaethyddiaeth a chynhyrchu bwyd, trafnidiaeth, adeiladau, gweithgynhyrchu a defnyddio deunyddiau, gwasanaethau, a llawer o feysydd eraill.

Mae'n bosibl y bydd busnesau bach a chanolig sy'n ymwneud ag ymchwil ac arloesi yn gallu cael cymorth, gan gynnwys buddsoddiad: Cyfleoedd – UKRI.

## 20.8 British Business Bank

Mae'r British Business Bank yn fanc datblygu busnes sy'n ymroddedig i roi cymorth i greu busnesau, eu datblygu a'u tyfu. Mae'n eiddo i Adran Busnes a Masnach Llywodraeth y DU ac mae'n cynnig amrywiaeth o gymorth ariannol, gan gynnwys benthyciadau cychwyn busnes.

Hafan – British Business Bank (british-business-bank.co.uk)


## 20.9 UK Finance

Mae UK Finance yn cynrychioli busnesau yn sector gwasanaethau ariannol y DU, gan gynnwys banciau a chymdeithasau adeiladu a changhennau cyllid sefydliadau eraill: Hafan | UK Finance. Mae'n cydnabod pwysigrwydd busnesau bach a chanolig i'r economi a'r angen i bontio i sero net.

Cyhoeddodd UK Finance yr adroddiad 'Unlocking the SME Net Zero Transition' ym mis Mai 2024: UK Finance SME sustainability report_0.pdf. Mae'r adroddiad hwn yn ystyried cyfleoedd a rhwystrau i fusnesau bach a chanolig sydd am wella'u perfformiad amgylcheddol.

Yn ddiamau, mae cyfle i fusnesau bach a chanolig leihau costau ariannol ac effeithiau carbon drwy fuddsoddi'n gywir mewn arbed ynni a chynhyrchu ynni adnewyddadwy. Mae'r sector cyllid yn buddsoddi yn y dulliau hyn a dylai busnesau bach a chanolig drafod cyfleoedd i ariannu buddsoddiadau o'r fath gyda'u banciau ac arianwyr eraill.

# 21
# Caffael



Mae'r broses o gaffael nwyddau a gwasanaethau yn gyfle i hyrwyddo lleihau carbon a chanlyniadau cynaliadwy eraill, gan gynnwys buddsoddi mewn cadwyni cyflenwi lleol. Mae Fforwm Economaidd y Byd yn esbonio'r potensial i hyrwyddo cynaliadwyedd drwy fusnesau bach a chanolig: How harnessing the power of SMEs and mid-sized companies can shape the future of sustainability | Fforwm Economaidd y Byd (weforum.org)

Gall busnesau bach a chanolig, drwy ddethol contractwyr a'r telerau ar gyfer darparu nwyddau a gwasanaethau, ffafrio contractwyr a darparwyr sy'n darparu opsiynau i leihau effeithiau carbon a chyfleoedd sy'n deillio o gadwyni cyflenwi byrrach.

Mae prosesau caffael yn y sector cyhoeddus yn gyfleoedd i fusnesau bach a chanolig yng Nghymru (yn unigol neu mewn consortia) wneud cais am gontractau i ddarparu nwyddau a gwasanaethau yn unol â'r agenda ddatgarboneiddio a byrhau cadwyni cyflenwi.

Mae Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023 Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) | LLYW.CYMRU (gweler Pennod 17) yn cyd-fynd ag amcan Llywodraeth Cymru o hyrwyddo budd cymunedol drwy gaffael sy'n gymdeithasol gyfrifol. Mae'r dull budd cymunedol yn ffordd o ymgorffori gofynion cymdeithasol mewn caffael er budd y cymunedau yn yr ardaloedd lle mae contractau'n cael eu darparu. Dyma fu prif fecanwaith Llywodraeth Cymru ar gyfer creu swyddi a hyfforddiant drwy gaffael.

Mae'r canllawiau caffael canlynol yn cael eu cynnig i gyrff y sector cyhoeddus yng Nghymru yn benodol er mwyn eu helpu i gyrraedd targed 2030 ar gyfer sector cyhoeddus sero net yng Nghymru.

- Datganiad Polisi Caffael Cymru (Llywodraeth Cymru, 2021)
- WPPN 01/23: Caffael – asesiadau risg cynaliadwyedd
- WPPN 01/23: Caffael – asesiadau risg cynaliadwyedd
- WPPN 01/23: Caffael – asesiadau risg cynaliadwyedd.

# 22
# Rhanddeiliaid



Mae'r llyfryn hwn yn ceisio cyflawni gwahanol ddibenion ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd. Bydd y cyd-destun strategol o ddiddordeb i ddeddfwyr a gweision sifil ac mae amlinellu'r cyd-destun hwnnw yn mynd i'r afael ag un o'r argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor Newid Hinsawdd yn ei 'Adroddiad Cynnydd: Lleihau allyriadau yng Nghymru' ym mis Mehefin 2023, Adroddiad Cynnydd: Lleihau allyriadau yng Nghymru Y Pwyllgor Newid Hinsawdd (theccc.org.uk).

Mae'r data a gyflwynwyd, o adroddiad ymchwil Ricardo AEA, yn darparu tystiolaeth empirig bwysig am y sector busnes yng Nghymru, a fydd yn bwysig i swyddogion Llywodraeth Cymru er mwyn datblygu dealltwriaeth well o ffynonellau o allyriadau carbon a chostau a manteision opsiynau i'w lleihau.

Bydd y dolenni at gymorth – technegol ac ariannol – ar gyfer busnesau bach a chanolig yn ddefnyddiol i reolwyr busnesau sydd am ddeall yn well eu rolau o ran lleihau allyriadau carbon a chyfrannu, drwy bontio teg, at economi wyrddach a fwy cynaliadwy.

Mae swyddogion ar draws Llywodraeth Cymru wedi cynorthwyo i ddatblygu'r llyfryn. Mae hefyd wedi elwa ar gyfres o weithdai rhanddeiliaid a hwyluswyd gan Ricardo AEA. Diolch o galon i'r rhai a gymerodd ran yn y gweithdai, gan gynnwys:

- MAKE UK
  The Manufacturers' Organisation | Make UK
- Diwydiant Cymru
- Cydffederasiwn Diwydiant Prydain Cymru (CBI Cymru): CBI | Cydffederasiwn Diwydiant Prydain | CBI
- Y Ffederasiwn Busnesau Bach: www.fsb.org.uk/
- Banc Datblygu Cymru: developmentbank.wales/

Darparodd Diwydiant Sero Net Cymru awgrymiadau hefyd ynghylch dogfen gryno ar gyfer y llyfryn.